



Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018

2018 dccc 3

Nodiadau Esboniadol

Law Derived from the European Union (Wales) Act 2018

2018 anaw 3

Explanatory Notes

£11.00



Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018

2018 dccc 3

Nodiadau Esboniadol

Law Derived from the European Union (Wales) Act 2018

2018 anaw 3

Explanatory Notes

DEDDF CYFRAITH SY'N DEILLIO O'R UNDEB EWROPEAIDD (CYMRU) 2018

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 ("y Ddeddf") a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Mawrth 2018 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 6 Mehefin 2018.
2. Fe'u lluniwyd gan Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet yn Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohono.

Y CEFNDIR

3. Ar 17 Rhagfyr 2015, cafodd Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015 y Cydsyniad Brenhinol. Gwnaeth y Ddeddf ddarpariaeth ar gyfer cynnal refferendwm yn y DU a Gibraltar o ran pa un a ddylai'r DU aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd ("yr UE"). Cynhaliwyd y refferendwm ar 23 Mehefin 2016 ac arweiniodd at bleidlais o 52% i ymadael â'r UE.
4. Cafodd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Hysbysu am Ymadael) 2017 y Cydsyniad Brenhinol ar 16 Mawrth 2017. Rhoddodd adran 1 o'r Ddeddf honno y pŵer i Brif Weinidog y DU i hysbysu'r Cyngor Ewropeaidd am fwriad y DU i ymadael â'r UE o dan Erthygl 50(2) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd. Rhoddwyd yr hysbysiad hwn ar 29 Mawrth 2017. Ar yr un pryd, rhoddodd y DU wybod ei bod yn ymadael â Chymuned Ynni Atomig Ewrop ('Euratom'), yn unol â'r un Erthygl 50(2) fel y'i cymhwysir gan Erthygl 106a o'r Cytuniad sy'n Sefydlu Cymuned Ynni Atomig Ewrop ("Cytuniad Euratom").
5. Ar 23 Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ar y cyd Bapur Gwyn o'r enw *Diogelu Dyfodol Cymru*. Mae'r papur yn gosod y prif faterion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn rhai sy'n hanfodol i Gymru wrth i'r DU ymadael â'r UE. Mae'n cynnwys nodau cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer y negodiadau rhwng Llywodraeth y DU a'r UE, gan roi pwyslais ar ddiogelu a hybu ffyniant gan gydnabod dymuniad y mwyafrif i ymadael â'r UE. Roedd y papur hefyd yn cynnwys syniadau ynghylch strwythurau cyfansoddiadol a llywodraethu'r DU yn y dyfodol ar ôl ymadael â'r UE.
6. Ar 15 Mehefin 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur polisi pellach o'r enw *Brexit a Datganoli* a ddatblygodd y syniadau ar y strwythurau cyfansoddiadol a llywodraethu yn *Diogelu Dyfodol Cymru*.

LAW DERIVED FROM THE EUROPEAN UNION (WALES) ACT 2018

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Law Derived from the European Union (Wales) Act 2018 (*“the Act”*) which was passed by the National Assembly for Wales on 21 March 2018 and received Royal Assent on 6 June 2018.
2. They have been prepared by the Office of the First Minister and Cabinet Office of the Welsh Government to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.

BACKGROUND

3. On 17 December 2015 the European Union Referendum Act 2015 received Royal Assent. The Act made provision for the holding of a referendum in the UK and Gibraltar on whether the UK should remain a member of the European Union (*“the EU”*). The referendum was held on 23 June 2016 and resulted in a 52% vote to leave the EU.
4. The European Union (Notification of Withdrawal) Act 2017 received Royal Assent on 16 March 2017. Section 1 of that Act gave the Prime Minister of the UK the power to notify the European Council of the UK’s intention to withdraw from the EU under Article 50(2) of the Treaty on European Union (*“the TEU”*). This notification was given on 29 March 2017. At the same time, the UK notified its withdrawal from the European Atomic Energy Community (*‘Euratom’*), in accordance with the same Article 50(2) as applied by Article 106a of the Treaty Establishing the European Atomic Energy Community (*“the Euratom Treaty”*).
5. On 23 January 2017 the Welsh Government and Plaid Cymru jointly published a White Paper entitled *Securing Wales’ Future*. The paper sets out the main issues identified by the Welsh Government and Plaid Cymru as vital for Wales as the UK moves to leave the EU. It includes the broad aims of the Welsh Government for the negotiations between the UK Government and the EU with emphasis on preserving and promoting prosperity while recognising the majority wish to leave the EU. The paper also contained ideas about the future constitutional and governance structures of the UK following withdrawal.
6. On 15 June 2017 the Welsh Government published a further policy paper entitled *Brexit and Devolution* which developed the ideas on constitutional and governance structures in *Securing Wales’ Future*.

7. Ar 13 Gorffennaf 2017, cyflwynwyd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ("y Bil i Ymadael â'r UE")¹ yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("DCE 1972") a darpariaeth arall mewn cysylltiad ag ymadawiad y DU â'r UE. Deddfwyd DCE 1972 yn barod i'r DU ymuno â'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd ar 1 Ionawr 1973 (mae'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd wedi esblygu ers hynny a'r UE ydyw bellach). Un o amodau aelodaeth o'r UE yw bod effaith yn cael ei rhoi i gyfraith yr UE mewn cyfraith ddomestig. Nid oedd y cytuniadau a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU i sicrhau aelodaeth o'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd yn newid cyfraith y DU. Roedd angen deddfwriaeth i gorffori pob cytuniad mewn cyfraith ddomestig. Darparodd DCE 1972 i'r gyfraith a oedd yn deillio o gytuniadau amrywiol y Cymunedau Ewropeaidd ar y pryd ddod yn rhan o gyfraith ddomestig ac mae'n parhau i ddarparu bod cyfraith yr UE yn rhan o gyfraith ddomestig.
8. Mae cyfraith yr UE wedi ei chorffori mewn cyfraith ddomestig gan DCE 1972 mewn dwy ffordd:
 - Mae adran 2(1) o DCE 1972 yn darparu bod yr hawliau, y pwerau, yr atebolrwyddau, y rhwymedigaethau, y cyfyngiadau, y rhwymedïau a'r gweithdrefnau a ddarperir mewn rhai mathau o gyfraith yr UE yn uniongyrchol gymwys i system gyfreithiol y DU. Mae hyn yn golygu eu bod yn uniongyrchol gymwys heb yr angen am ddeddfwriaeth ddomestig bellach. Er enghraifft, mae darpariaeth yn un o Gytuniadau'r UE, megis y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, sy'n creu hawl sy'n uniongyrchol gymwys, yn orfodadwy yn llysoedd y DU heb i'r DU orfod cymryd camau pellach.
 - Mae adran 2(2) o DCE 1972 yn awdurdodi'r DU i weithredu rhwymedigaethau gan yr UE drwy is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, caniateir gweithredu rhwymedigaethau mewn Cyfarwyddeb gan yr UE drwy is-ddeddfwriaeth. Nid yw hyn yn atal rhwymedigaeth gan yr UE rhag cael ei gweithredu'n ddomestig drwy ddeddfwriaeth sylfaenol (er enghraifft Rhan 5 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) nac yn atal defnyddio pwerau a geir mewn deddfwriaeth sylfaenol arall (er enghraifft adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999).
9. Bydd diddymu DCE 1972 yn golygu y bydd y darpariaethau hyn yn peidio â chael effaith.
10. Yn Miller², datganodd y Goruchaf Lys, er bod DCE 1972 yn rhoi effaith i gyfraith yr UE, nad DCU 1972 ei hun yw ffynhonnell wreiddiol y gyfraith honno. Disgrifiwyd y Ddeddf mewn dadleuon ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol fel 'conduit pipe' ar gyfer cyflwyno cyfraith yr UE yng nghyfraith y DU. Cytunodd y Goruchaf Lys â'r gymhariaeth hon. Byddai dileu'r 'conduit pipe' yn atal llif cyfraith yr UE i gyfraith ddomestig felly. Byddai unrhyw ddarn o gyfraith yr UE sy'n gymwys mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 2(1) o DCE 1972 yn peidio â chael effaith felly oni wneir darpariaeth i ddiogelu effaith y gyfraith honno.

¹ <https://services.parliament.uk/bills/2017-19/europeanunionwithdrawal.html>

² R (on the application of Miller and another) v Secretary of State for Exiting the European Union [2017] UKSC 5, ym mharagraff 65.

7. On 13 July 2017, the European Union (Withdrawal) Bill (“the EU Withdrawal Bill”)¹ was introduced in the House of Commons. It contains provision for the repeal of the European Communities Act 1972 (“the ECA 1972”) and other provision in connection with the withdrawal of the UK from the EU. The ECA 1972 was enacted in anticipation of the UK joining the European Economic Community on 1 January 1973 (the European Economic Community has since evolved to become the EU). A condition of membership of the EU is for EU law to be given effect in domestic law. The treaties ratified by the UK Government to achieve membership of the European Economic Community did not alter the law of the UK. It was necessary for each treaty to be incorporated into domestic law by legislation. The ECA 1972 provided that law arising from the various treaties of what were then the European Communities became part of domestic law and it continues to provide that EU law is part of domestic law.
8. The incorporation of EU law into domestic law is achieved by the ECA 1972 in two ways:
 - Section 2(1) of the ECA 1972 provides that rights, powers, liabilities, obligations, restrictions, remedies and procedures provided in some types of EU law are directly applicable in the UK legal system. This means that they are directly applicable without the need for further domestic legislation. For example, a provision of an EU Treaty, such as the Treaty on the Functioning of the European Union (“the TFEU”), which creates a directly applicable right, is enforceable in the UK courts without further action domestically.
 - Section 2(2) of the ECA 1972 authorises the implementation of EU obligations of the UK by subordinate legislation. For example, obligations in an EU Directive may be implemented by way of subordinate legislation. This does not prevent an EU obligation being implemented domestically by primary legislation (for example Part 5 of the Environment (Wales) Act 2016) or using powers contained in other primary legislation (for example section 2 of the Pollution Prevention and Control Act 1999).
9. The repeal of the ECA 1972 will mean that these provisions will cease to have effect.
10. In Miller², the Supreme Court stated that although the ECA 1972 gives effect to EU law it is not itself the originating source of that law. The Act was described in arguments on behalf of the Secretary of State as a ‘conduit pipe’ by which EU law is introduced into the law of the UK. The Supreme Court agreed with this analogy. Removing the ‘conduit pipe’ would therefore stop the flow of EU law into domestic law. Any EU law which applies in domestic law by virtue of section 2(1) of the ECA 1972 would therefore cease to have effect unless provision is made to preserve the effect of that law.

¹ <https://services.parliament.uk/bills/2017-19/europeanunionwithdrawal.html>

² R (on the application of Miller and another) v Secretary of State for Exiting the European Union [2017] UKSC 5, at paragraph 65.

11. Pan ddiddymir adran 2(2) o DCE 1972, bydd yr holl is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y pŵer hwnnw yn darfod yn awtomatig oni wneir darpariaeth i'w diogelu. Mae'r Bil i Ymadael â'r UE yn gwneud darpariaeth yng nghymal 2 i ddeddfwriaeth o'r fath gael ei harbed wrth i Ddeddf 1972 gael ei diddymu.
12. Ar 12 Medi 2017, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad mewn cysylltiad â'r Bil i Ymadael â'r UE fel y'i cyflwynwyd ar 13 Gorffennaf 2017. Mae'r rhestr lawn o gymalau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw, wedi ei nodi mewn tabl yn atodiad A i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Nododd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol na fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu argymhell i'r Cynulliad ei fod yn rhoi cydsyniad i'r Bil fel y'i drafftwyd wrth ei gyflwyno.
13. Ar 19 Medi 2017, anfonodd Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog yr Alban lythyr ar y cyd at Brif Weinidog y DU gan nodi cyfres o welliannau arfaethedig i'r Bil i Ymadael â'r UE. Eglurodd y llythyr y gallai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ystyried argymhell i'r Cynulliad ac i Senedd yr Alban fod cydsyniad yn cael ei roi i'r Bil i Ymadael â'r UE, pe gwnaed y gwelliannau i'r Bil. Cyflwynwyd y gwelliannau yn Senedd y DU wedi hynny ond ni chytunodd Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin arnynt.
14. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i gymal 11 o'r Bil i Ymadael â'r UE yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch effaith y Bil hwnnw ar ddatganoli. Cafwyd dadl ynghylch y rhain, ynghyd â gwelliannau eraill sy'n ymwneud â datganoli, ar 21 Mawrth 2018. Tynnwyd pob gwelliant yn ôl yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ac mae'r cymalau hyn i gael eu hystyried ymhellach yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi.
15. Mae cyfeiriadau isod at ddarpariaethau'r Bil i Ymadael â'r UE yn gyfeiriadau at y Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Ionawr 2018³, sef fersiwn y Bil fel y safodd pan basiwyd Bil y Ddeddf hon gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Mawrth 2018.

CRYNODEB O'R DDEDDF

16. Diben y Ddeddf yw sicrhau bod y ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu pynciau sydd wedi eu datganoli i Gymru yn gweithio'n effeithiol ar ôl i DCE 1972 gael ei diddymu gan y Bil i Ymadael â'r UE, gan dybio bod y Bil yn cael ei basio a bod y DU yn ymadael â'r UE.
17. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ailddatgan a darnodi deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE ar bynciau sydd wedi eu datganoli i Gymru, gydag unrhyw addasiadau sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud i'r ddeddfwriaeth weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Yn y Ddeddf, disgrifir y corff hwn o gyfraith sydd i gael ei nodi mewn rheoliadau fel 'cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE'. Yn gyffredinol, bydd y Ddeddf yn gweithredu fel y bydd yr un gyfraith mewn pynciau sydd wedi eu datganoli i Gymru yn gymwys ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ag o'r blaen, yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau angenrheidiol i'r gyfraith i ddelio â'r ffaith na fydd y DU yn rhan o'r trefniadau sefydliadol a swyddogaethol a ddarperir o dan gyfraith yr UE mwyach.

³ https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/2017-2019/0079/lbill_2017-20190079_en_1.htm

11. On repeal of section 2(2) of the ECA 1972, all subordinate legislation made under that power will lapse automatically unless provision is made to preserve it. The EU Withdrawal Bill makes provision in clause 2 for such legislation to be saved on repeal of the 1972 Act.
12. On 12 September 2017, the Welsh Government laid a Legislative Consent Memorandum (“the LCM”) before the Assembly in respect of the EU Withdrawal Bill as introduced on 13 July 2017. The full list of clauses which are within or modify the legislative competence of the Assembly are set out in a table at annex A to the LCM. The LCM stated that the Welsh Government would not be able to recommend to the Assembly that it gives consent to the Bill as drafted on introduction.
13. On 19 September 2017, the First Minister of Wales and the First Minister of Scotland sent a joint letter to the Prime Minister of the UK with a set of proposed amendments to the EU Withdrawal Bill. The letter explained that if the amendments were made to the Bill, both the Welsh Government and the Scottish Government could consider recommending to the Assembly and the Scottish Parliament that consent be given to the EU Withdrawal Bill. The amendments were subsequently tabled in Parliament but the amendments were not agreed by the House of Commons Committee.
14. Amendments were tabled by the UK Government to clause 11 of the EU Withdrawal Bill at House of Lords Committee stage in response to concerns raised regarding the impact of that Bill on devolution. These were debated, along with other amendments relating to devolution, on 21 March 2018. All amendments were withdrawn at House of Lords Committee stage with further consideration of these clauses to take place at House of Lords Report stage.
15. References below to the provisions of the EU Withdrawal Bill are references to the Bill as introduced in the House of Lords on 18 January 2018³, which is the version of the Bill as it stood when the Bill of this Act was passed by the National Assembly for Wales on 21 March 2018.

SUMMARY OF THE ACT

16. The purpose of the Act is to ensure that the legislation covering subjects devolved to Wales works effectively after the ECA 1972 is repealed by the EU Withdrawal Bill, assuming the Bill is passed and the UK leaves the EU.
17. The Act gives regulation making powers to the Welsh Ministers to restate and demarcate EU derived legislation on subjects that are devolved to Wales, with any modifications that are necessary to make the legislation work following the withdrawal of the UK from the EU. This body of law to be set out in regulations is described in the Act as ‘EU derived Welsh law’. As a general rule, the Act will operate so that the same law in subjects devolved to Wales will apply after the UK exits the EU as before, subject to any necessary modifications of the law to deal with the fact that the UK will no longer be part of the institutional and functional arrangements provided under EU law.

³ https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/2017-2019/0079/lbill_2017-20190079_en_1.htm

18. Mae'r pwerau i ailddatgan a darnodi cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn cynnwys pŵer i wneud unrhyw ddiwygiadau i'r corff hwnnw o gyfraith o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.
19. Bwriedir i'r Ddeddf weithredu ochr yn ochr â'r Bil i Ymadael â'r UE⁴. Mae'r Bil i Ymadael â'r UE—
- yn diddymu DCE 1972 o'r "diwrnod ymadael";
 - yn troi'r corff o gyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys yn y DU (e.e. rheoliadau gan yr UE sy'n uniongyrchol gymwys yn y DU drwy weithrediad DCE 1972) yng nghyfraith ddomestig awdurdodaethau'r DU ("cyfraith y DU");
 - yn diogelu'r holl gyfreithiau sydd wedi eu gwneud yn y DU i weithredu rhwymedigaethau gan yr UE (e.e. rheoliadau a wneir o dan adran 2(2) o DCE 1972 sy'n gweithredu cyfarwyddebau gan yr UE);
 - yn corffori unrhyw hawliau eraill sydd ar gael mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd DCE 1972, gan gynnwys yr hawliau a geir yng Nghytuniadau'r UE, y gellir dibynnu arnynt ar hyn o bryd yn uniongyrchol yng nghyfraith y DU heb yr angen am fesurau gweithredu penodol; ac
 - yn darparu bod i gyfraith achosion Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd cyn i'r DU ymadael â'r UE yr un statws rhwymol, neu'r un statws o ran cynsail, yn llysoedd y DU â phenderfyniadau'r Goruchaf Lys.
20. Ar adeg pasio Bil y Ddeddf hon, y "diwrnod ymadael" o dan y Bil i Ymadael â'r UE, unwaith y'i deddfir, fydd 29 Mawrth 2019 am 11.00pm, oni bai bod y diwrnod neu'r amser y mae'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn peidio â bod yn gymwys i'r DU yn unol ag Erthygl 50(3) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd yn wahanol a bod y Bil i Ymadael â'r UE yn cael ei ddiwygio drwy reoliadau a wneir gan un o Weinidogion y Goron i newid y diffiniad o'r diwrnod ymadael ("exit day") yn unol â hynny.
21. Mae'r gyfraith sydd wedi ei throi neu ei diogelu gan y Bil i Ymadael â'r UE yn "cyfraith yr UE a ddargedwir". Diffinnir cyfraith yr UE a ddargedwir ("retained EU law") yng nghymal 6(7) o'r Bil i Ymadael â'r UE fel unrhyw beth sydd, ar neu ar ôl y diwrnod ymadael, yn parhau i fod yn gyfraith ddomestig, neu'n rhan ohoni, yn rhinwedd darpariaethau'r Ddeddf sy'n troi neu'n diogelu cyfraith yr UE a chyfraith y DU sy'n ymwneud â chyfraith yr UE. Bydd cyfraith yr UE a ddargedwir hefyd yn cynnwys unrhyw addasiadau i'r gyfraith a gaiff ei throi neu ei diogelu gan neu o dan y Bil i Ymadael â'r UE neu gan ddarn arall o gyfraith y DU o bryd i'w gilydd; a chaiff gynnwys cyfraith ar bynciau sydd wedi eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ogystal â chyfraith ar bynciau nad ydynt wedi eu datganoli.
22. Ar adeg pasio Bil y Ddeddf hon, roedd y Bil i Ymadael â'r UE yn cynnwys cyfyngiadau ar allu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i addasu cyfraith a gaiff ei throi neu ei diogelu gan y Bil i Ymadael â'r UE. Mae adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("DLIC 2006"), sy'n darparu ar gyfer cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi ei diwygio gan gymal 11(2) o'r Bil i Ymadael â'r UE. Mae'r diwygiad yn atal Deddf gan y Cynulliad rhag addasu cyfraith yr UE a ddargedwir, neu rhag rhoi pŵer i addasu cyfraith o'r fath, oni bai—

⁴ Am esboniad manwl o ddarpariaethau Bil yr UE (Ymadael) gweler y nodiadau esboniadol a luniwyd gan Lywodraeth y DU.

18. The powers to restate and demarcate EU derived Welsh law include a power to make any amendments to that body of law in consequence of the UK's withdrawal from the EU.
19. The Act is intended to operate alongside the EU Withdrawal Bill⁴. The EU Withdrawal Bill –
 - repeals the ECA 1972 from “exit day”;
 - converts the body of EU law that applies directly in the UK (e.g. EU regulations that apply directly in the UK through the operation of the ECA 1972) into the domestic law of the UK jurisdictions (“UK law”);
 - preserves all of the laws that have been made in the UK to implement EU obligations (e.g. regulations made under section 2(2) of the ECA 1972 that implement EU directives);
 - incorporates any other rights that are available in domestic law by virtue of the 1972 Act, including the rights contained in the EU Treaties, that can currently be relied on directly in UK law without the need for specific implementing measures; and
 - provides that pre-exit case law of the Court of Justice of the European Union (“CJEU”) be given the same binding, or precedent, status in UK courts as decisions of the Supreme Court.
20. At the time of the passing of the Bill for this Act, “exit day” under the EU Withdrawal Bill, once enacted, will be 29 March 2019 at 11.00pm, unless the day or time on or at which the TEU and the TFEU cease to apply to the UK in accordance with Article 50(3) of the TEU is different and the EU Withdrawal Bill is amended by regulations made by a Minister of the Crown to change the definition of “exit day” accordingly.
21. The law that is converted or preserved by the EU Withdrawal Bill is “retained EU law”. Retained EU law is defined in clause 6(7) of the EU Withdrawal Bill as anything which, on or after exit day, continues to be, or forms part of domestic law by virtue of the provisions of the Act that convert or preserve EU law and UK law related to EU law. Retained EU law will also include any modifications of the law converted or preserved by or under the EU Withdrawal Bill or by other UK law from time to time; and it may include law on subjects that are devolved to the National Assembly for Wales as well as law on subjects that are not devolved.
22. At the time of the passing of the Bill for the Act, the EU Withdrawal Bill contained restrictions on the ability of the National Assembly for Wales to modify law converted or preserved by the EU Withdrawal Bill. Section 108A of the Government of Wales Act 2006 (“the GoWA 2006”), which provides for the legislative competence of the National Assembly for Wales, is amended by clause 11(2) of the EU Withdrawal Bill. The amendment prevents an Act of the Assembly from modifying, or conferring power to modify, retained EU law unless—

⁴ For a detailed explanation of the provisions of the EU (Withdrawal) Bill see the explanatory notes prepared by the UK Government.

- y byddai'r addasiad wedi bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn union cyn y diwrnod ymadael; neu
 - fod yr addasiad wedi ei awdurdodi gan ddarpariaeth a wneir gan Ei Mawrhydi mewn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a gymeradwyir gan ddau Dŷ'r Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
23. Ni fydd y gyfraith a ailddatgenir ac a ddarnodir cyn y diwrnod ymadael yn gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE o dan y Ddeddf yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir a gaiff ei throï neu ei diogelu o'r diwrnod ymadael o dan y Bil i Ymadael â'r UE. Bydd cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn parhau i fod yn gyfraith ddomestig, neu'n rhan ohoni, o ran Cymru yn rhinwedd darpariaethau'r Ddeddf, yn hytrach nag yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth yn y Bil i Ymadael â'r UE. Mae hyn yn golygu y bydd cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn dod y tu allan i'r diffiniad o gyfraith y DU a ddargedwir ("retained EU law") yng nghymal 6(7) o'r Bil i Ymadael â'r UE ac na fydd yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau ar bŵer y Cynulliad i addasu cyfraith yr UE a ddargedwir a osodir gan gymal 11(2) o'r Bil hwnnw.
24. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau pellach i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth:
- mewn perthynas â sicrhau cydymffurfedd â rhwymedigaethau rhyngwladol,
 - mewn perthynas â gweithredu'r cytundeb ymadael, ac
 - i fynd bob yn gam â chyfraith yr UE ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.
25. Mae'r Ddeddf yn sefydlu sefyllfa ddiodyn yn y gyfraith ei bod yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y gall unrhyw berson wneud, cadarnhau neu gymeradwyo is-ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu pynciau datganoledig a wneir o dan Ddeddfau Seneddol a gaiff eu pasio ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym (ac sy'n bodloni amodau eraill). Gall Senedd y DU newid y sefyllfa ddiodyn hon os yw'n dymuno gwneud hynny pan fydd yn creu swyddogaethau newydd i wneud, cadarnhau neu gymeradwyo is-ddeddfwriaeth.

SYLWEBEAETH AR ADRANNAU'R DDEDDF

26. Os nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Ddeddf, nis rhoddir.

Adran 2 – cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE

27. Mae adran 2 o'r Ddeddf yn diffinio cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE at ddiben y Ddeddf fel darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau o dan adrannau 3 a 4 o'r Ddeddf, darpariaeth sy'n parhau mewn effaith o dan neu yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan adran 4 neu ddarpariaeth a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau o dan adran 5. Bydd y mwyafrif o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn seiliedig ar y corff o gyfraith yr UE a deddfwriaeth weithredu ddomestig a fydd yn peidio â chael effaith mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd diddymu adran 2(1) a (2) o DCE 1972. Mae cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE hefyd yn cynnwys categori pellach o gyfraith ddomestig nad yw'n dibynnu ar DCE 1972 er mwyn i'w effaith barhau mewn cyfraith ddomestig; hynny yw, darpariaeth a wneir mewn neu o dan ddeddfwriaeth sylfaenol ac eithrio DCE 1972.

- the modification would have been within the legislative competence of the Assembly immediately before exit day; or
 - the modification is authorised by provision made by Her Majesty in an Order in Council approved by both Houses of Parliament and the National Assembly for Wales.
23. The law restated and demarcated before exit day as EU derived Welsh law under the Act will not form part of retained EU law converted or preserved from exit day under the EU Withdrawal Bill. EU derived Welsh law will continue to be, or form part of, domestic law in relation to Wales by virtue of the provisions of the Act, rather than by virtue of any provision of the EU Withdrawal Bill. This means that EU derived Welsh law will fall outside the definition of “retained EU law” in clause 6(7) of the EU Withdrawal Bill and will not be subject to the restrictions on the Assembly’s power to modify retained EU law imposed by clause 11(2) of that Bill.
24. The Act provides further powers to the Welsh Ministers to make provision:
- in relation to ensuring compliance with international obligations,
 - in relation to implementing the withdrawal agreement, and
 - to keep pace with EU law after the UK has withdrawn from the EU.
25. The Act establishes a default position in law that the Welsh Ministers’ consent is required before any person can make, confirm or approve subordinate legislation covering devolved subjects that are made under Acts of Parliament passed after the Act comes into force (and which meet other conditions). This default position can be changed by Parliament if it wishes when it creates new functions to make, confirm or approve subordinate legislation..

COMMENTARY ON SECTIONS OF THE ACT

26. Where an individual section of the Act does not require any explanation or comment, none is given.

Section 2 – EU derived Welsh law

27. Section 2 of the Act defines EU derived Welsh law for the purpose of the Act as provision made by the Welsh Ministers in regulations under sections 3 and 4 of the Act, provision continuing in effect under or by virtue of regulations made under section 4 or provision specified by the Welsh Ministers in regulations under section 5. The majority of EU derived Welsh law will be based on the body of EU law and domestic implementing legislation that will cease to have effect in domestic law by virtue of the repeal of section 2(1) and (2) of the ECA 1972. EU derived Welsh law also includes a further category of domestic law which is not dependent on the ECA 1972 for its continued effect in domestic law; that is provision made in or under primary legislation other than the ECA 1972.

28. Mae cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE hefyd i gynnwys unrhyw ychwanegiadau neu addasiadau a wneir i'r corff hwnnw o gyfraith ar unrhyw adeg yn y dyfodol. Diffinnir 'addasu' yn adran 20(1) o'r Ddeddf ac mae'n cynnwys diwygio, diddymu neu ddirymu. Hyd yn oed os caiff darpariaeth yng nghyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE ei diddymu neu ei dirymu a bod darpariaeth newydd yn cael ei rhoi yn ei lle, mae adran 2, wedi ei darllen ochr yn ochr ag adran 20(1), yn ei gwneud yn glir y gallai'r ddarpariaeth newydd fod yn rhan o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE o hyd. Bydd pa un a yw darpariaeth newydd o'r fath yn rhan o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE mewn gwirionedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r bwriad sy'n sail i'r addasiad.

Adran 3 – Pŵer i ddargadw cyfraith uniongyrchol yr UE

29. Mae adran 3 yn darparu ar gyfer y gainc gyntaf o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE a restrir yn y diffiniad yn adran 2. Nid yw'r adran yn darparu ar gyfer corffori cyfraith uniongyrchol yr UE mewn cyfraith ddomestig yn awtomatig fel sy'n digwydd yng nghymal 3 o'r Bil i Ymadael â'r UE. Yn hytrach, mae'n galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig sy'n cyfateb i gyfraith uniongyrchol yr UE.
30. Diffinnir cyfraith uniongyrchol yr UE yn adran 3(3). Mae'n dal pob un o gyfreithiau'r UE sy'n uniongyrchol gymwys yn y DU.
31. Un categori o gyfraith yr UE yw Cytuniadau'r UE sy'n cael effaith uniongyrchol yng nghyfraith Cymru a Lloegr yn rhinwedd adran 2(1) o DCE 1972 (adran 3(3)(a)). Diffinnir Cytuniadau'r UE ("EU Treaties") yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 ("DD 1978") drwy gyfeirio at adran 1 o DCE 1972 ac Atodlen 1 iddi. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i ddiddymu DCE 1972 ac mae darpariaeth wedi ei chynnwys i'r perwyl hwnnw yng nghymal 1 o'r Bil i Ymadael â'r UE. Mae'r Bil i Ymadael â'r UE (ym mharagraff 11 o Atodlen 8) yn diwygio'r diffiniad o Gytuniadau'r UE a geir yn Atodlen 1 i DD 1978 fel y bydd yn parhau i gyfeirio'n ôl at y diffiniad yn DCE 1972 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn ei diddymu.
32. Mae Cytuniadau'r UE yn gytundebau rhwymol rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE. Maent yn nodi amcanion a rheolau'r UE ar gyfer sefydliadau'r UE, sut y gwneir penderfyniadau a'r berthynas rhwng yr UE ac Aelod-wladwriaethau. Mae pob cam a gymerir gan yr UE yn seiliedig ar Gytuniadau'r UE. Mae Cytuniadau'r UE hefyd yn cynnwys hawliau o sylwedd, megis cyflog cyfartal i ddynion a menywod o dan Erthygl 157 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.
33. Dau brif Gytuniad yr UE yw'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd. Mae adran 3(3)(a) yn darparu mai dim ond darpariaeth yng Nghytuniadau'r UE sy'n cael effaith uniongyrchol sydd i ddod o fewn cwmpas pŵer Gweinidogion Cymru yn adran 3(1).

28. EU derived Welsh law is also to include any additions or modifications made to that body of law at any point in the future. 'Modify' is defined in section 20(1) of the Act and includes amend, repeal or revoke. Even if a provision of EU derived Welsh law is repealed or revoked and replaced with new provision, section 2, read alongside section 20(1), makes clear that the new provision could still form part of EU derived Welsh law. Whether such new provision does indeed form part of EU derived Welsh law will depend on the circumstances and the intention behind the modification.

Section 3 – Power to retain direct EU law

29. Section 3 provides for the first limb of EU derived Welsh law listed in the definition in section 2. The section does not provide for the automatic incorporation of direct EU law into domestic law in the manner of clause 3 of the EU Withdrawal Bill. Rather, it enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision within devolved competence corresponding to direct EU law.
30. Direct EU law is defined in section 3(3). It captures all EU laws which are directly applicable in the UK.
31. One category of EU law is EU Treaties that have direct effect in the law of England and Wales by virtue of section 2(1) of the ECA 1972 (section 3(3)(a)). The term "EU Treaties" is defined in Schedule 1 to the Interpretation Act 1978 ("the IA 1978") by reference to section 1 of, and Schedule 1 to, the ECA 1972. The UK Government has committed to repealing the ECA 1972 and provision is contained to that effect in clause 1 of the EU Withdrawal Bill. The EU Withdrawal Bill (at paragraph 11 of Schedule 8) amends the definition of EU Treaties contained in Schedule 1 to the IA 1978 so that it will continue to refer back to the definition in the ECA 1972 as it had effect immediately before its repeal.
32. EU Treaties are binding agreements between EU member States. They set out EU objectives and rules for EU institutions, how decisions are made and the relationship between the EU and member States. Every action taken by the EU is founded on the EU Treaties. The EU Treaties also contain substantive rights, such as equal pay for men and women under Article 157 of the TFEU.
33. The two main EU Treaties are the TEU and the TFEU. Section 3(3)(a) provides that only EU Treaty provision that has direct effect is to fall within the scope of the Welsh Ministers' power in section 3(1).

34. Mae'r egwyddor o effaith uniongyrchol ynghlwm wrth ddarpariaethau penodol yng nghyfraith yr UE sy'n arwain at roi hawliau i unigolion sy'n orfodadwy yn y llysoedd cenedlaethol. Mae'r hawliau wedi eu rhoi'n uniongyrchol ac nid yw'n ofynnol cymryd unrhyw gamau deddfwriaethol ar ran yr Aelod-wladwriaeth. Nid yw effaith uniongyrchol ond yn gymwys i ddarpariaethau yng nghyfraith yr UE sy'n ddigon clir, manwl gywir a diamod⁵.
35. Nid yw adran 3(3)(a) ond yn dal yr hawliau hynny o dan Gytuniadau'r UE sy'n uniongyrchol effeithiol ac nad ydynt wedi eu hatgynhyrchu eisoes mewn deddfiad sy'n gymwys o ran Cymru.
36. Diffinnir "Cytuniadau'r UE" ("EU Treaties") at ddiben adran 3(3)(a) yn DD 1978 drwy gyfeirio at adran 1 o DCE 1972. Gwnaeth adran 1 o Ddeddf yr Ardal Economaidd Ewropeaidd 1993 gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ("yr AEE") yn un o Gytuniadau'r UE at ddibenion DCE 1972. Felly, mae unrhyw hawliau sy'n uniongyrchol effeithiol o dan gytundeb yr AEE o fewn cwmpas y pŵer yn adran 3(1).
37. Pan fo darpariaeth yn un o Gytuniadau'r UE eisoes wedi ei hatgynhyrchu mewn deddfiad o ran Cymru, byddai'r deddfiad o dan sylw yn dod o fewn cwmpas adran 4 neu 5, nid adran 3. Mae'r cwestiwn o ran a yw darpariaeth yn un o Gytuniadau'r UE eisoes wedi ei hatgynhyrchu mewn deddfiad o ran Cymru i'w benderfynu drwy gyfeirio at y gyfraith ar y diwrnod y daw adran 3 i rym. Os caiff deddfiad ei basio neu ei wneud ar ôl i adran 3 ddod i rym sy'n atgynhyrchu darpariaeth yn un o Gytuniadau'r UE, ni fyddai'n atal Gweinidogion Cymru rhag arfer y pŵer yn adran 3(1) mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth yng Nghytuniad yr UE.
38. Mae'r ail gategori o gyfraith uniongyrchol yr UE wedi ei nodi yn adran 3(3)(b). Diffinnir rheoliad gan yr UE yn adran 20(1) fel rheoliad o fewn ystyr Erthygl 288 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd. Mae rheoliadau gan yr UE yn cynnwys rheolau cyfreithiol manwl ac maent yn uniongyrchol gymwys ym mhob Aelod-wladwriaeth. Mae angen i'r DU fabwysiadu trefniadau ar lefel ddomestig er mwyn i gyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys gael effaith. Cyflawnir hyn drwy adran 2(1) o DCE 1972. Mae adran 2(1) yn darparu'r cyfrwng i reoliadau'r UE lifo drwyddo i gyfraith ddomestig. Yn gyffredinol, y canlyniad yw nad yw'n ofynnol cymryd unrhyw gamau pellach yn y DU i sicrhau bod rheoliad gan yr UE yn cael yr effaith gyfreithiol a ddymunir. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae angen cymryd rhai camau domestig i addasu cyfraith ddomestig er mwyn sicrhau cydymffurfedd â rheoliad gan yr UE (er enghraifft, gall fod angen creu trosedd mewn cyfraith ddomestig er mwyn gorfodi rheoliad gan yr UE) neu pan fo darpariaeth ganlyniadol yn ofynnol ar lefel ddomestig er mwyn rhoi effaith lawn i'r gofynion a geir mewn rheoliad gan yr UE.

⁵ Achos 26/62 NV Algemene Transporten Expeditie Onderneming van Gend en Loos v Nederlandse Administratie der Belastingen.

34. The principle of direct effect attaches to certain provisions of EU law which result in rights being conferred on individuals that are enforceable in national courts. The rights are conferred directly and do not require any legislative action on the part of the member State. Direct effect only applies to provisions of EU law that are sufficiently clear, precise and unconditional⁵.
35. Section 3(3)(a) only captures those rights under EU Treaties that are directly effective and are not already reproduced in an enactment that applies in relation to Wales.
36. The “EU Treaties” for the purpose of section 3(3)(a) is defined in the IA 1978 by reference to section 1 of the ECA 1972. Section 1 of the European Economic Area Act 1993 made the European Economic Area (“the EEA”) agreement one of the “EU Treaties” for the purposes of the ECA 1972. Any directly effective rights under the EEA agreement are therefore within the scope of the power in section 3(1).
37. Where provision in an EU Treaty is already reproduced in an enactment in relation to Wales, the enactment in question would fall within the scope of section 4 or 5, not section 3. The question of whether a provision in an EU Treaty is already reproduced in an enactment in relation to Wales is to be decided by reference to the law on the day section 3 comes into force. If an enactment is passed or made after section 3 comes into force which reproduces provision in an EU Treaty, it would not prevent the Welsh Ministers from exercising the power in section 3(1) in respect of the provision in the EU Treaty.
38. The second category of direct EU law is set out in section 3(3)(b). EU regulation is defined in section 20(1) as a regulation within the meaning of Article 288 of the TFEU. EU regulations contain detailed legal rules and are directly applicable in all member States. It is necessary for the UK to adopt arrangements at domestic level for directly applicable EU law to have effect. This is achieved by section 2(1) of the ECA 1972. Section 2(1) provides the conduit through which EU regulations flow into domestic law. As a general rule, the result is that no further action is required within the UK to ensure an EU regulation has the desired legal effect. However, in some instances some domestic action is necessary to modify domestic law in order to ensure compliance with an EU regulation (for example, it may be necessary to create a criminal offence in domestic law to enforce the EU regulation) or where consequential provision is required at domestic level in order to give full effect to the requirements contained in an EU regulation.

⁵ Case 26/62 NV Algemene Transporten Expeditie Onderneming van Gend en Loos v Nederlandse Administratie der Belastingen.

39. Mae penderfyniadau gan yr UE wedi eu dal hefyd gan adran 3(3)(b) ac fe'u diffinnir yn adran 20(1) fel penderfyniad o fewn ystyr Erthygl 288 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd neu benderfyniad o dan Erthygl 34(2)(c) flaenorol o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd. Mae penderfyniadau gan yr UE yn weithredoedd cyfreithiol rhwymol sy'n gymwys i un neu ragor o Aelod-wladwriaethau, cwmnïau neu unigolion⁶. Mae rhai penderfyniadau yn gyffredinol ac yn uniongyrchol gymwys ac ar gael mewn cyfraith ddomestig heb yr angen am ddeddfwriaeth weithredu benodol⁷. Fodd bynnag, pan fo penderfyniad wedi ei gyfeirio at Aelod-wladwriaeth, gall fod angen gweithredu mewn cyfraith ddomestig er mwyn rhoi effaith i'r penderfyniad⁸. Mae'r cyfeiriad at Erthygl 34(2)(c) flaenorol o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai penderfyniadau gan yr UE a wnaed cyn y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, ac felly o dan Erthygl 34(2)(c) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd, yn parhau i fod mewn grym.
40. Deddfwriaeth drydyddol yr UE yw'r trydydd categori o gyfraith yr UE a ddelir gan adran 3(3)(b), ac fe'i diffinnir yn adran 20(1). Mae dau fath o ddeddfwriaeth drydyddol yr UE: actau dirprwyedig ac actau gweithredu. Mae actau dirprwyedig yn ddeddfau sy'n gyfreithiol rwymol sy'n galluogi'r Comisiwn Ewropeaidd ("y Comisiwn") i ychwanegu at rannau nad ydynt yn hanfodol o actau deddfwriaethol yr UE, neu i ddiwygio'r rhannau hynny⁹, er enghraifft, er mwyn diffinio mesurau manwl. Mae actau gweithredu yn gyfreithiol rwymol hefyd ac yn galluogi'r Comisiwn, o dan oruchwyliaeth pwyllgorau sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Aelod-wladwriaethau, i osod amodau sy'n sicrhau y caiff cyfreithiau'r UE eu cymhwyso'n unffurf¹⁰. Gall deddfwriaeth drydyddol yr UE fod ar yr un ffurf â rheoliad gan yr UE, cyfarwyddeb gan yr UE, penderfyniad gan yr UE, argymhelliad gan yr UE neu farn gan yr UE.

⁶ Erthygl 288 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

⁷ Er enghraifft, nid yw Penderfyniad y Comisiwn 2011/753/EU, sy'n sefydlu'r rheolau a'r dulliau ar gyfer cyfrifo targedau ailddefnyddio ac ailgylchu a nodir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, wedi ei weithredu drwy ddeddfwriaeth benodol yn y DU, ond mae ar gael mewn cyfraith ddomestig drwy adran 2(1) o DCE 1972.

⁸ Er enghraifft, mae Rheoliadau Ensefalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008 (O.S. 2008/3154 (Cy. 282)) yn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 2007/411/EC dyddiedig 14 Mehefin 2007 sy'n gwahardd rhoi ar y farchnad gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid buchol a anwyd neu a fagwyd o fewn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 at unrhyw ddiben ac sy'n esemptio'r anifeiliaid hynny rhag mesurau rheoli a dileu penodol a osodwyd yn Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 ac sy'n diddymu Penderfyniad 2005/598/EC.

⁹ Erthygl 290(1) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

¹⁰ Erthygl 291(2) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

39. EU decisions are also captured by section 3(3)(b), and are defined in section 20(1) as a decision within the meaning of Article 288 of the TFEU or a decision under former Article 34(2)(c) of the TEU. EU decisions are binding legal acts that apply to one or more member States, companies or individuals⁶. Some decisions are generally and directly applicable and are available in domestic law without the need for specific implementing legislation⁷. However, where a decision is addressed to a member State, implementation in domestic law may be necessary to give effect to the decision⁸. The reference to former Article 34(2)(c) of the TEU is a reflection that some EU decisions made prior to the TFEU, and therefore under Article 34(2)(c) of the TEU, remain in force.
40. EU tertiary legislation is the third category of EU law captured by section 3(3)(b), and is defined in section 20(1). There are two types of EU tertiary legislation: delegated acts and implementing acts. Delegated acts are legally binding acts that enable the European Commission (“the Commission”) to supplement or amend non-essential parts of EU legislative acts⁹, for example, in order to define detailed measures. Implementing acts are also legally binding and enable the Commission, under the supervision of committees consisting of representatives from member States, to set conditions that ensure that EU laws are applied uniformly¹⁰. EU tertiary legislation may take the same form as an EU regulation, EU directive, EU decision, EU recommendation or EU opinion.

⁶ Article 288 of the TFEU.

⁷ For example Commission Decision 2011/753/EU, establishing the rules and methods for calculating targets for re-use and recycling set out in the Waste Framework Directive, has not been implemented via specific UK legislation, but is available in domestic law via section 2(1) of the ECA 1972.

⁸ For example the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) Regulations 2008 (S.I. 2008/3154 (W. 282)) implements Commission Decision 2007/411/EC of 14 June 2007 prohibiting the placing on the market of products derived from bovine animals born or reared within the United Kingdom before 1 August 1996 for any purpose and exempting such animals from certain control and eradication measures laid down in Regulation (EC) No 999/2001 and repealing Decision 2005/598/EC.

⁹ Article 290(1) of the TFEU.

¹⁰ Article 291(2) of the TFEU.

41. Mae adran 3(3)(c) a (d) yn dal darpariaeth mewn unrhyw reoliad gan yr UE, unrhyw benderfyniad gan yr UE ac unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth drydyddol yr UE fel y maent yn gymwys i'r AEE. Mae Deddf yr Ardal Economaidd Ewropeaidd 1993 yn gwneud cytundeb yr AEE yn un o gytuniadau'r UE at ddibenion DCE 1972. O ganlyniad, mae adran 2(1) a (2) o DCE 1972 yn gymwys i ddarpariaethau cytundeb yr AEE. Yn y bôn, mae rheoliadau gan yr UE, penderfyniadau gan yr UE a deddfwriaeth drydyddol yr UE yn gymwys i'r AEE yn rhinwedd eu cynnwys yn yr Atodiadau i gytundeb yr AEE, gydag unrhyw gyfaddasiadau sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt weithredu'n effeithiol yng nghyd-destun yr AEE. Mae rheoliadau gan yr UE, penderfyniadau gan yr UE a deddfwriaeth drydyddol yr UE, fel y'u cyfaddesir, wedyn yn llifo i ddeddfwriaeth ddomestig y DU o ganlyniad i adran 2(1) o DCE 1972. Mae Protocol 1 i gytundeb yr AEE yn cynnwys cyfaddasiadau llorweddol sy'n nodi darpariaethau dehongli cyffredinol sy'n gymwys yn yr holl Atodiadau i gytundeb yr AEE. Er enghraifft, pryd bynnag y mae offerynnau gan yr UE yn cyfeirio at wladolion un o Aelod-wladwriaethau'r UE, mae'r cyfeiriadau, at ddibenion cytundeb yr AEE, i'w deall fel cyfeiriadau hefyd at wladolion gwladwriaethau Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop¹¹.
42. Mae adran 3(3)(c)(i) yn darparu cyswllt rhwng paragraffau (c) a (b). Ni fyddai unrhyw atodiad i gytundeb yr AEE yn berthnasol ond pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan adran 3 i wneud darpariaeth sy'n cyfateb i reoliadau gan yr UE, penderfyniadau gan yr UE neu ddeddfwriaeth drydyddol yr UE. Felly, byddai'r cyfuniad o adran 3(3)(b), (c) a (d) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n cyfateb i reoliadau gan yr UE, penderfyniadau gan yr UE neu ddeddfwriaeth drydyddol yr UE fel y maent yn gymwys i gyd-destun yr AEE ac wedi eu cyfaddasu iddo.
43. Fel gyda pharagraffau (a) a (b), ni chaiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau pan fo effaith yr offeryn gan yr UE (fel y'i cyfaddesir ar gyfer yr AEE) eisoes wedi ei hatgynhyrchu mewn deddfiad.
44. Mae adran 3(1) yn darparu pŵer i wneud darpariaeth gyfatebol yn hytrach na phŵer i ailddatgan. Mae hyn yn adlewyrchu natur cyfraith uniongyrchol yr UE. Cafodd cyfraith uniongyrchol yr UE ei dylunio, ei drafftio a'i mabwysiadu i fod yn gymwys yn gydwladol. Felly, mae cyfraith uniongyrchol yr UE yn cynnwys darpariaeth na all weithredu'n effeithiol o ran Cymru yn unig. Bydd y pŵer i wneud darpariaeth gyfatebol felly yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd darn o gyfraith uniongyrchol yr UE a'i ail-lunio'n rheoliadau Cymreig sy'n gweithredu'n effeithiol mewn cyd-destun domestig. Bydd y broses hon yn golygu addasiadau i gyfraith uniongyrchol yr UE. Mae adran 3(4) yn rhoi enghreifftiau o'r math o addasiadau a ragwelir fel rhan o'r rheoliadau. Nid yw'r rhestr o enghreifftiau yn adran 3(4) yn rhestr gynhwysfawr.

¹¹ Mae Erthygl 2(b) o Gytundeb yr AEE yn diffinio gwladwriaethau Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop fel Gwlad yr Iâ, Tywysogaeth Liechtenstein a Theyrnas Norwy.

41. Section 3(3)(c) and (d) capture provision in any EU regulation, EU decision and EU tertiary legislation as they apply to the EEA. The European Economic Area Act 1993 makes the EEA agreement one of the “EU treaties” for the purposes of the ECA 1972. In consequence, section 2(1) and (2) of the ECA 1972 applies to provisions of the EEA agreement. In essence, EU regulations, EU decisions and EU tertiary legislation apply to the EEA by virtue of their inclusion in the Annexes to the EEA agreement, with any adaptations that are necessary for them to operate effectively in the EEA context. EU regulations, EU decisions and EU tertiary legislation, as adapted, then flow into UK domestic legislation as a result of section 2(1) of the ECA 1972. Protocol 1 to the EEA agreement contains horizontal adaptations which set out general interpretive provisions that apply throughout the Annexes to the EEA agreement. For example, whenever EU instruments refer to nationals of an EU member State, the references, for the purposes of the EEA agreement, are to be understood as references also to nationals of European Free Trade Association states¹¹.
42. Section 3(3)(c)(i) provides a link between paragraphs (c) and (b). Any annex to the EEA agreement would only be relevant where the Welsh Ministers make regulations under section 3 to make provision corresponding to EU regulations, EU decisions or EU tertiary legislation. The combination of section 3(3)(b), (c) and (d) would therefore enable the Welsh Ministers to make provision corresponding to EU regulations, EU decisions or EU tertiary legislation as they apply to, and are adapted for, the EEA context.
43. As with paragraphs (a) and (b), the Welsh Ministers cannot use the power to make regulations where the effect of the EU instrument (as adapted for the EEA) are already reproduced in an enactment.
44. Section 3(1) provides a power to make corresponding provision rather than a power to restate. This is a reflection of the nature of direct EU law. Direct EU law was designed, drafted and adopted to apply on a supranational basis. Direct EU law therefore contains provision which cannot operate effectively in relation to Wales alone. The power to make corresponding provision will therefore enable the Welsh Ministers to take a piece of direct EU law and re-mould it into Welsh regulations which operate effectively in a domestic context. This process will involve modifications to the direct EU law. Section 3(4) gives examples of the kind of modifications envisaged as part of the regulations. The list of examples in section 3(4) is not an exhaustive list.

¹¹ Article 2(b) of the EEA Agreement defines EFTA states as Iceland, the Principality of Liechtenstein and the Kingdom of Norway.

45. Nid yw'r pŵer i wneud addasiadau o'r fath yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddileu hawliau etc. a fwynheir ar hyn o bryd o dan gyfraith uniongyrchol yr UE gan unigolion yng Nghymru. Mae is-adrannau (1) a (2) yn gweithredu er mwyn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau fod at ddiben parhau â gweithrediad cyfraith uniongyrchol yr UE ac er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio parhau â'r hawliau etc. a fwynheir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae pwerau Gweinidogion Cymru wedi eu cyfyngu i ddarpariaeth sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Bydd unrhyw hawliau etc. yng nghyfraith uniongyrchol yr UE nad ydynt yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig yn fater i Senedd y DU, ac yn benodol, os caiff ei basio, y Bil i Ymadael â'r UE sy'n mynd ar ei hynt drwy Senedd y DU ar hyn o bryd.
46. Mae is-adran (4)(a) yn adlewyrchu na all darpariaethau penodol yng nghyfraith uniongyrchol yr UE weithredu'n effeithiol mewn cyd-destun domestig yng Nghymru. Gallai hyn gynnwys darpariaethau penodol sy'n gymwys i Aelod-wladwriaeth benodol, ardal benodol neu ranbarth penodol yn yr UE ac eithrio Cymru. Er enghraifft, mae Erthygl 1 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1100/2007 sy'n sefydlu mesurau ar gyfer adfer stoc llyswennod Ewropeaidd yn cyfeirio at ddiogelu stoc llyswennod Ewropeaidd, a'r defnydd cynaliadwy o'r stoc honno, yn nyfroedd y Gymuned, mewn morlynnoedd arfordirol, aberoedd ac afonydd sy'n llifo i foroedd, megis Môr y Canoldir. Ni fyddai darpariaeth sy'n cyfateb i Erthygl 1 o Reoliad y Cyngor 1100/2007 a wneir o dan adran 3 o'r Ddeddf ond yn gwneud darpariaeth ar gyfer diogelu stoc mewn dyfroedd, morlynnoedd arfordirol, aberoedd ac afonydd sy'n llifo i'r môr o amgylch Cymru. Byddai unrhyw gyfeiriad, er enghraifft at Fôr y Canoldir, yn ddiangen. Wrth wneud y newidiadau i ddarpariaeth yng nghyfraith uniongyrchol yr UE, byddai'n golygu rhywfaint o addasu yn hytrach na hepgoriad syml, yn y rhan fwyaf o achosion. Yn yr enghraifft o Reoliad y Cyngor 1100/2007, yn hytrach na dim ond hepgor y moroedd amherthnasol a restrir, efallai y bydd yn well hepgor pob un o'r cyfeiriadau at y moroedd a rhoi geiriad newydd yn eu lle sy'n adlewyrchu'r moroedd o amgylch Cymru.
47. Gallai fod elfen o orgyffwrdd rhwng adran 3(4)(a) a'r hidlydd cyntaf a gymhwysir gan adran 3(1) - darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig. Pan fo darpariaeth yng nghyfraith uniongyrchol yr UE yn gymwys ac eithrio o ran Cymru neu'n rhychwantu ac eithrio dim ond i Gymru a Lloegr, ni fyddai'n goresgyn y prawf yn adran 3(1) (yr eithriad yw y gallai darpariaeth a oedd yn gymwys ac eithrio o ran Cymru fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad pe bai'n dod o fewn adran 108(5) o DLIC 2006. O dan amgylchiadau o'r fath, byddai angen i Weinidogion Cymru, wrth wneud darpariaeth gyfatebol o dan adran 3(1), hepgor y darpariaethau a oedd yn dod y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad.

45. The power to make such modifications does not enable the Welsh Ministers to remove rights etc. currently being enjoyed under direct EU law by individuals in Wales. Subsections (1) and (2) operate to require any provision in regulations to be for the purpose of continuing the operation of direct EU law and to require the Welsh Ministers to seek to continue the rights etc. currently being enjoyed. However, the powers of the Welsh Ministers are limited to provision within devolved competence. Any rights etc. in direct EU law which do not fall within devolved competence will be a matter for the UK Parliament, and specifically, if passed, the EU Withdrawal Bill which is currently progressing through the UK Parliament.
46. Subsection (4)(a) reflects that certain provisions in direct EU law are not capable of operating effectively in a domestic context in Wales. This could include certain provisions that apply to a particular member State, area or region of the EU other than Wales. As an example, Article 1 of Council Regulation (EC) No 1100/2007 establishing measures for the recovery of the stock of European eel makes reference to the protection and sustainable use of the stock of European eel in Community waters, in coastal lagoons, estuaries and rivers which flow into seas, such as the Mediterranean Sea. Provision corresponding to Article 1 of Council Regulation 1100/2007 made under section 3 of the Act would only make provision for the protection of stock in waters, coastal lagoons, estuaries and rivers which flow into the sea around Wales. Any reference, for example to the Mediterranean Sea, would be redundant. In making the changes to provision in direct EU law, in most cases it would involve some degree of modification rather than a simple omission. In the example of Council Regulation 1100/2007, rather than simply omitting the irrelevant seas listed, it may be better to omit all of the references to the seas and replace with a new formulation which reflects the seas around Wales.
47. There could be a degree of overlap between section 3(4)(a) and the first filter applied by section 3(1) – provision within devolved competence. Where a provision in direct EU law applies otherwise than in relation to Wales or extends otherwise than only to England and Wales, it would not overcome the test in section 3(1) (the exception being that a provision that applied otherwise than in relation to Wales could be within the Assembly’s legislative competence if it fell within section 108(5) of the GoWA 2006). In such circumstances, the Welsh Ministers in making corresponding provision under section 3(1) would need to omit the provisions that fell outside the Assembly’s competence.

48. Mae is-adran (4)(b) yn adlewyrchu bod cyfraith uniongyrchol yr UE yn sefydlu nifer o endidau o'r UE ac yn rhoi swyddogaethau i'r endidau hyn neu mewn perthynas â'r endidau hyn. Er enghraifft, mae Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid yn rhoi rhan ganolog i Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop wrth awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid (yn ychwanegol at y Comisiwn). Yn ddarostyngedig i'r negodiadau rhwng y DU a'r UE ac unrhyw gytundebau ar gyfer perthynas yn y dyfodol, ni fyddai Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop yn chwarae rhan mwyach wrth awdurdodi'r defnydd o ychwanegion bwyd anifeiliaid yng Nghymru. Gallai rheoliadau a wneir o dan adran 3 a oedd yn gwneud darpariaeth gyfatebol i Reoliad 1831/2003 hepgor y swyddogaethau a roddid i Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop. Fodd bynnag, er mwyn parhau â gweithrediad y system ar gyfer awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid, gallai Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth i sefydlu awdurdod cyhoeddus newydd yng Nghymru (is-adran 4(h)) a rhoi'r swyddogaethau i'r awdurdod hwnnw, neu roi'r swyddogaethau i awdurdod cyhoeddus sy'n bodoli eisoes (is-adran 4(g)). Pan fo swyddogaethau o'r fath yn cael eu rhoi i awdurdod cyhoeddus sy'n bodoli eisoes, gall fod angen gwneud newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r corff hwnnw. Gallai hyn gynnwys gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol y mae is-adran 4(i) yn darparu'n benodol ar ei gyfer.
49. Mae is-adran 4(c), (d) ac (e) yn amlygu'r posibilrwydd y gall fod angen ymdrin ag unrhyw drefniadau cilyddol, neu drefniadau eraill sy'n ymwneud â'r UE, yng nghyfraith uniongyrchol yr UE fel rhan o wneud darpariaeth o dan adran 3. Bydd hyn yn dibynnu'n helaeth ar ganlyniad y negodiadau rhwng y DU a'r UE ar unrhyw berthynas yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi mai adran 11 a fyddai'r pŵer perthnasol pan fo unrhyw gytundeb ymadael yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trefniadau cilyddol yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE. Gallai is-adran 4(c) fod yn berthnasol, er enghraifft, mewn perthynas â rhannu gwybodaeth. Er enghraifft, mae Erthygl 19(1) o Reoliad (EU) 2016/429 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar glefydau trosglwyddadwy anifeiliaid ac sy'n diwygio ac yn diddymu actau penodol ym maes iechyd anifeiliaid yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau hysbysu'r Comisiwn ac Aelod-wladwriaethau eraill am unrhyw achosion o unrhyw glefydau a restrir. Wrth i'r DU ymadael â'r UE, byddai'r ddyletswydd ar Aelod-wladwriaethau ac eithrio'r DU i hysbysu'r DU o dan y ddarpariaeth hon yn peidio â bod yn gymwys. Felly, byddai'n amhriodol parhau â gofyniad mewn cyfraith ddomestig i Weinidogion Cymru hysbysu'r Comisiwn a'r Aelod-wladwriaethau pe bai achosion o unrhyw glefydau a restrir yng Nghymru. Fodd bynnag, unwaith eto, mae trefniadau cilyddol o'r fath yn debygol o fod yn destun trafodaethau fel rhan o'r negodiadau am unrhyw berthynas yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE.

48. Subsection (4)(b) reflects that direct EU law establishes a number of EU entities and confers functions on, or in relation to, these entities. For example, Regulation (EC) No 1831/2003 of the European Parliament and of the Council on additives for use in animal nutrition provides a central role to the European Food Safety Authority in authorising feed additives (in addition to the Commission). Subject to the negotiations between the UK and the EU and any agreements for a future relationship, the European Food Safety Authority would no longer play a role in authorising the use of feed additives in Wales. Regulations made under section 3 which made corresponding provision to Regulation 1831/2003 could omit the functions conferred on the European Food Safety Authority. However, in order to continue in operation the system for the authorisation of feed additives, the Welsh Ministers could make provision to establish a new public authority in Wales (subsection (4)(h)) and confer the functions on that authority, or confer the functions on an existing public authority (subsection (4)(g)). Where such functions are conferred on an existing public authority, it may be necessary to make changes to the legislative framework governing that body. This could include making amendments to primary legislation which subsection (4)(i) expressly provides for.
49. Subsection (4)(c), (d) and (e) highlights the possibility that any reciprocal arrangements, or other arrangements which involve the EU, in direct EU law, may need to be addressed as part of making provision under section 3. This will be heavily dependent on the outcome of negotiations between the UK and the EU on any future relationship. However, to note, section 11 would be the relevant power where any withdrawal agreement includes provision for future reciprocal arrangements between the UK and the EU. An example of where subsection (4)(c) could be relevant is in relation to the sharing of information. For example, Article 19(1) of Regulation (EU) 2016/429 of the European Parliament and of the Council on transmissible animal diseases and amending and repealing certain acts in the area of animal health requires member States to notify the Commission and other member States of any outbreaks of any listed diseases. As the UK leaves the EU, the duty on member States other than the UK to inform the UK under this provision would cease to apply. It would therefore be inappropriate to maintain a requirement in domestic law for the Welsh Ministers to inform the Commission and the member States if there were to be an outbreak of any listed diseases in Wales. However, once again, reciprocal arrangements such as these are likely to be the subject of discussions as part of the negotiations of any future relationship between the UK and the EU.

50. Mae is-adran (4)(f) yn adlewyrchu'r cyfeiriadau helaeth at yr UE (sy'n cynnwys cyfeiriadau at yr AEE) a geir yng nghyfraith uniongyrchol yr UE na fyddant yn briodol mwyach wrth i'r darpariaethau gael eu cyfaddasu i fod yn gymwys mewn cyd-destun domestig yn unig. Er enghraifft, mae cyfran fawr o gyfreithiau uniongyrchol yr UE yn nodi pwnc yr offeryn yn yr Erthygl(au) agoriadol. Yn aml, maent yn cyfeirio at nodau a dibenion y Rheoliad ac maent wedi eu drafftio fel arfer gan gyfeirio at amcanion Ewropeaidd, neu gymorth cydweithredu a chydgylltu rhwng Aelod-wladwriaethau (gweler, er enghraifft, Erthygl 1(2) o Benderfyniad Rhif 1082/2013/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd ac sy'n diddymu Penderfyniad Rhif 2119/98/EC). Gallai ymdrin â diffygion o'r fath gynnwys hepgor y cyfeiriadau neu gyfaddasu'r cyfeiriad fel ei fod yn gweithredu'n effeithiol mewn cyd-destun domestig. Yn lle cyfeiriad at gyfrannu at lefel uchel o ddiogelwch iechyd y cyhoedd yn yr Undeb, gellid rhoi cyfeiriad at gyfrannu at ddiogelwch o'r fath yng Nghymru, pe bai'n briodol.
51. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 3 wedi ei gyfyngu. Mae'r cyfyngiadau yn adlewyrchu'n fras y cyfyngiadau sy'n gymwys i'r pŵer yn adran 2(2) o DCE 1972. Mae'r cyfyngiad ar osod neu gynyddu trethiant yn deillio o baragraff 1(1)(a) o Atodlen 2 i DCE 1972, mae'r cyfyngiad ar wneud darpariaeth ôl-weithredol yn deillio o baragraff 1(1)(b) o Atodlen 2 ac mae'r cyfyngiad ar greu troseddau perthnasol yn deillio o baragraff 1(1)(d) o Atodlen 2. Diffinnir trosedd berthnasol yn adran 20.
52. Mae'r cyfyngiadau yn adran 3(5)(d) ac (e) yn adlewyrchu'r terfynau ar gymhwysedd y Cynulliad mewn cysylltiad â deddfu mewn perthynas â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron. Mae paragraff (d) yn adlewyrchu'r cyfyngiad a geir ym mharagraff 1(2) o Ran 2 o Atodlen 7 i DLIC 2006. Mae paragraff (e) yn adlewyrchu'r cyfyngiad a geir ym mharagraff 1(1) o Ran 2 o Atodlen 7, ond mae hefyd yn adlewyrchu'r eithriad i'r cyfyngiad hwnnw a geir ym mharagraff 6(1)(b) o Ran 3 o Atodlen 7. Nid yw paragraff (d) yn cyfeirio at unrhyw ailddatganiad o swyddogaethau Gweinidogion y Goron (a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd paragraff 8 o Ran 3 o Atodlen 7 i DLIC 2006) gan nad yw cyfraith uniongyrchol yr UE yn cynnwys unrhyw swyddogaethau Gweinidogion y Goron.
53. Mae adran 108(6)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu na all y Cynulliad wneud deddfwriaeth sy'n anghydnaws â chyfraith yr UE. Yn y mwyafrif o achosion, byddai darpariaeth a wneir o dan adran 3 yn anghydnaws â chyfraith yr UE pe bai'n dod i rym tra oedd y DU yn dal i fod yn aelod o'r UE ac yn ddarostyngedig i gyfraith yr UE. Er enghraifft, byddai darpariaeth o dan adran 3 a oedd yn hepgor gofyniad i hysbysu'r Comisiwn am achos o glefydau penodol yn groes i gyfraith yr UE ac felly ni fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Felly, mae'r cyfyngiad yn adran 3(6)(b) i atal y pŵer rhag cael ei ddefnyddio mewn modd sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Dylid nodi bod Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i gyfyngiad wrth wneud, cadarnhau a chymeradwyo unrhyw is-ddeddfwriaeth, neu wrth wneud unrhyw weithred arall, sy'n anghydnaws â chyfraith yr UE yn rhinwedd adran 80(8) o DLIC 2006. Felly, dim ond rheoliadau a oedd yn dod i rym ar neu ar ôl y diwrnod ymadael y gallai Gweinidogion Cymru eu gwneud o dan adran 3.

50. Subsection (4)(f) reflects the extensive EU references (which includes EEA references) contained in direct EU law which will no longer be appropriate as the provisions are adapted to apply purely in a domestic context. For example, a large proportion of direct EU laws set out the subject matter of the instrument in the opening Article(s). Often they refer to the aims and purposes of the Regulation and are usually drafted by reference to objectives at a European level, or the support of cooperation and coordination between member States (see for example Article 1(2) of Decision No 1082/2013/EU of the European Parliament and of the Council on serious cross-border threats to health and repealing Decision No 2119/98/EC). Addressing such deficiencies could include omitting the references or adapting the reference so that it operates effectively in a domestic context. A reference to contributing to a high level of public health protection in the Union could be replaced with contributing to such protection in Wales if appropriate.
51. The power to make regulations under section 3 is restricted. The restrictions broadly reflect the restrictions applicable to the power in section 2(2) of the ECA 1972. The restriction on imposing or increasing taxation derives from paragraph 1(1)(a) of Schedule 2 to the ECA 1972, the restriction on making retrospective provision derives from paragraph 1(1)(b) of Schedule 2 and the restriction on creating relevant criminal offences derives from paragraph 1(1)(d) of Schedule 2. A relevant criminal offence is defined in section 20.
52. The restrictions in section 3(5)(d) and (e) reflect the limits on the Assembly's competence in respect of legislating in relation to functions of a Minister of the Crown. Paragraph (d) reflects the restriction contained in paragraph 1(2) of Part 2 of Schedule 7 to the GoWA 2006. Paragraph (e) reflects the restriction contained in paragraph 1(1) of Part 2 of Schedule 7, but also reflects the exception to that restriction which is contained in paragraph 6(1)(b) of Part 3 of Schedule 7. Paragraph (d) does not make reference to any restatement of Minister of the Crown functions (which would be within the Assembly's legislative competence by virtue of paragraph 8 of Part 3 of Schedule 7 to the GoWA 2006) as direct EU law does not contain any Minister of the Crown functions.
53. Section 108(6)(c) of the GoWA 2006 provides that the Assembly cannot legislate incompatibly with EU law. In the majority of cases, provision made under section 3 would be incompatible with EU law if it were to come into force whilst the UK remained a member of the EU and subject to EU law. For example, a provision under section 3 which omitted a requirement to inform the Commission of an outbreak of specific diseases would be contrary to EU law and therefore not within the Assembly's legislative competence. The restriction in section 3(6)(b) is therefore to prevent the power being used in a manner that is outside the Assembly's legislative competence. To note, the Welsh Ministers are subject to a restriction in making, confirming, approving any subordinate legislation, or doing any other act, which is incompatible with EU law by virtue of section 80(8) of the GoWA 2006. The Welsh Ministers could only therefore make regulations under section 3 which came into force on or after exit day.

54. Darperir y croniciadau sydd wedi eu cynnwys yng nghyfraith uniongyrchol yr UE yn unol ag Erthygl 296 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd. Gellir defnyddio'r rhain i hwyluso dehongli ond mae cyfraith achosion Llys Cyfiawnder yr UE yn ei gwneud yn glir nad oes ganddynt unrhyw rym cyfreithiol rhwymol¹². Felly, ni fydd rheoliadau a wneir o dan adran 3 ond yn cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i'r rheolau cyfreithiol a geir yng nghyfraith uniongyrchol yr UE ac nid y croniciadau.

Adran 4 – Ailddatgan a pharhad deddfiadau sy'n deillio o'r UE

55. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ailddatgan y ddeddfwriaeth ddomestig sy'n gymwys yng Nghymru mewn pynciau datganoledig ac sy'n deillio o gyfraith yr UE neu'n ymwneud â'r UE neu'r AEE at rai dibenion neu at bob diben, ac i barhau â'r ddeddfwriaeth honno mewn effaith.
56. Mae adran 4(1) yn pennu bod y pŵer yn adran 4(2) yn gymwys i deddfiadau, fel y'u diffinnir yn adran 20(1), sy'n gweithredu mewn rhyw ffordd i weithredu rhwymedigaethau cyfraith yr UE neu'n ymwneud fel arall â'r UE neu'r AEE. Wrth ymadael â'r UE, gallai fod amheuaeth ynghylch a fyddai deddfiadau a oedd yn rhagdybio aelodaeth o'r UE yn parhau i weithio'n effeithiol. Gallai'r un amheuaeth fod yn gymwys hefyd i deddfiadau sy'n ymwneud â'r UE neu'r AEE neu sy'n cyfeirio at yr UE neu'r AEE.
57. Mae'r pŵer yn adran 4(2) yn ymdrin â'r amheuaeth hon. Mae'n gwneud hynny drwy alluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i:
- ddiddymu neu ddirymu deddfiadau ac i'w hailddatgan (is-adran (2)(a)), a
 - datgymhwyso deddfiadau a'u hailddatgan wedi hynny (is-adran (2)(b)).
58. Mae deddfiad yn cael ei ddiddymu neu ei ddirymu pan yw'r deddfiad yn peidio â bod yn rhan o gyfraith awdurdodaeth. Mae Cymru yn parhau i fod yn rhan o awdurdodaeth unedig Cymru a Lloegr, er gwaethaf datganoli. Mae hyn yn golygu bod deddfau sy'n gymwys o ran Cymru yn unig yn dechnegol yn rhan o'r gyfraith a gydnabyddir gan lysoedd Cymru a Lloegr. Deddfiadau sy'n gymwys i Gymru yn unig, naill ai mewn Deddfau Seneddol neu odanynt neu yn Neddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu odanynt, ac sy'n cynnwys pynciau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig yn gyfan gwbl yw'r mathau o deddfiadau y gellir eu diddymu neu eu dirymu o dan is-adran (2)(a).
59. Pan fo deddfiad sy'n gymwys i Gymru hefyd yn gymwys i Loegr neu pan fo'n cynnwys pynciau neilltuol nad ydynt wedi eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ni ellir ei ddiddymu na'i ddirymu o dan y pŵer yn is-adran (2)(a). Bwriedir i is-adran (2)(b) gwmpasu'r math hwn o deddfiad y bydd angen ei ddatgymhwyso o ran Cymru neu mewn perthynas â phynciau datganoledig (y datgymhwyso y mae diwygiadau i'r deddfiad yn rhoi effaith iddo), o ystyried cyfyngiadau cymhwysedd datganoledig.
60. Bydd yn ofynnol cywiro llawer o'r deddfiadau a gwmpesir gan adran 4 er mwyn sicrhau y gallant barhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r pwerau ym mharagraffau (c) a (d) o is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ailddatgan y deddfiadau gyda'r addasiadau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r nod hwn.

¹² Casa Fleischhandels, Achos 215/88.

54. The recitals contained in direct EU law are provided in compliance with Article 296 of the TFEU. These can be used to assist interpretation but case law of the CJEU makes clear that they do not have any binding legal force¹². Regulations made under section 3 will therefore only contain provision corresponding to the legal rules contained in direct EU law and not the recitals.

Section 4 – Restatement and continuation of EU derived enactments

55. This section gives the Welsh Ministers the power to restate and continue in effect the domestic legislation applicable in Wales in devolved subjects that is derived from EU law or relates to the EU or EEA for some or all purposes.
56. Section 4(1) specifies that the power in section 4(2) applies to enactments, as defined in section 20(1), which in some way operate to implement EU law obligations or relate otherwise to the EU or the EEA. On leaving the EU there could be doubt over whether enactments which presupposed membership of the EU would continue to work effectively. The same doubts could also apply to enactments which relate or refer to the EU or EEA.
57. The power in section 4(2) addresses this doubt. It does so by enabling the Welsh Ministers, by regulations, to
- repeal or revoke such enactments and to restate them (subsection (2)(a)), and
 - disapply enactments and subsequently restate them (subsection (2)(b)).
58. Repeal or revocation of an enactment occurs when the enactment ceases to be part of the law of a jurisdiction. Wales remains part of the unified jurisdiction of England and Wales, despite devolution. This means that laws which apply only in relation to Wales technically form a part of the law recognised by the courts of England and Wales. Enactments that apply only to Wales, either in or under Acts of Parliament or in or under Acts of the National Assembly for Wales, and which include subject matter wholly within devolved competence are the kinds of enactments that can be repealed or revoked under subsection (2)(a).
59. Where an enactment applying to Wales also applies to England or it contains severable subject-matter that is not devolved to the National Assembly for Wales, it cannot be repealed or revoked under the power in subsection (2)(a). Subsection (2)(b) is intended to cover this type of enactment, which, given the limitations of devolved competence, will need to be disapplied in relation to Wales or in relation to devolved subject-matter (the disapplication being given effect by amendments to the enactment).
60. Many of the enactments covered by section 4 will require corrections to ensure that they can continue to operate effectively after the withdrawal of the UK from the EU. The powers in paragraphs (c) and (d) of subsection (2) enable the Welsh Ministers to restate the enactments with the modifications necessary to achieve this aim.

¹² Casa Fleischhandels, Case 215/88.

61. Mae adran 4(2)(e) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad ag ailddatgan. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys darpariaeth mewn perthynas â phwerau a geir mewn cyfarwyddebau gan yr UE i wneud deddfwriaeth drydyddol yr UE (gweler is-adran (5)(f)). O dan yr amgylchiadau hynny, bydd y gyfarwyddeb gan yr UE wedi ei gweithredu mewn deddfwriaeth ddomestig, ond ni fydd y pŵer i wneud deddfwriaeth drydyddol yr UE yn rhan o gyfraith ddomestig. Mae angen y pŵer i wneud deddfwriaeth drydyddol yr UE er mwyn sicrhau y gellir gweithredu'r gyfarwyddeb gan yr UE yn effeithiol. Gallai hyn gynnwys pwerau i ddiweddarau agweddau technegol ar gyfarwyddeb gan yr UE i adlewyrchu datblygiadau ymarferol, gwyddonol neu dechnolegol. Felly, mae adran 4(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ail-greu'r pwerau hynny yn ddomestig er mwyn sicrhau y gall y cynllun deddfwriaethol llawn weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.
62. Mae adran 4(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau fel bod is-ddeddfwriaeth a wneir o dan ddeddfiadau sydd wedi eu diddymu, eu dirymu neu eu datgymhwyso o ran Cymru yn rhinwedd adran 4(2) yn parhau i gael effaith. Neu, gellid defnyddio adran 4(2) i ailddatgan yr is-ddeddfwriaeth o dan sylw. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu penderfynu pa un ai i ddelio ag is-ddeddfwriaeth o dan y pwerau yn adran 4(2) neu (3). Gellir addasu is-ddeddfwriaeth sy'n parhau i gael effaith yn y ffordd hon hefyd er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol.
63. Fel gydag adran 3, mae adran 4 yn nodi rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r math o addasiadau y rhagwelir y byddant yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y deddfiad ailddatganedig. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:
- **Cyfeiriadau at yr UE:** mae deddfiadau domestig yn cynnwys cyfeiriadau niferus at "cyfraith yr UE", "rhwymedigaethau gan yr UE", "Aelod-wladwriaethau ac eithrio'r DU" a "gwladwriaethau'r AEE". Bydd yn ofynnol addasu'r rhain er mwyn adlewyrchu ymadawiad y DU â'r UE. Er enghraifft, mae rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017¹³ yn diffinio "deddfwriaeth yr Undeb". Mae'r term wedi ei ddiffinio drwy gyfeirio at ddeddfiadau sy'n gymwys o ran Cymru sy'n rhoi effaith i "un o rwymedigaethau'r UE". Bydd yn ofynnol diwygio'r rhain gan na fydd darpariaeth mewn deddfiadau sy'n rhoi effaith i rwymedigaethau'r UE ar ôl i'r DU ymadael â'r UE (oni bai bod y cytundeb ymadael yn cynnwys darpariaeth o'r fath – mae'r pŵer yn adran 10 i ymdrin â hyn).

¹³ O.S. 2017/567 (Cy. 136).

61. Section 4(2)(e) enables the Welsh Ministers to make further provision in connection with restatement. For example, this could include provision in relation to powers contained in EU directives to make EU tertiary legislation (see subsection (5)(f)). In such circumstances the EU directive will have been implemented in domestic legislation, but the power to make EU tertiary legislation will not form part of domestic law. The power to make EU tertiary legislation is needed to ensure the EU directive can be implemented effectively. This could include powers to update technical aspects of an EU directive to reflect practical, scientific or technological developments. Section 4(2)(e) therefore enables the Welsh Ministers to recreate those powers domestically so as to ensure the full legislative scheme can operate effectively after the UK withdraws from the EU.
62. Section 4(3) enables the Welsh Ministers to make regulations so that subordinate legislation made under enactments which are repealed, revoked or disapplied in relation to Wales by virtue of section 4(2) continues to have effect. Alternatively, section 4(2) could be used to restate the subordinate legislation in question. The Welsh Ministers will be able to decide whether to deal with such subordinate legislation under the powers in section 4(2) or (3). Subordinate legislation which continues to have effect in this way may also be modified to ensure it operates effectively.
63. As with section 3, section 4 sets out a non-exhaustive list of the type of modifications envisaged as being necessary to ensure the effective operation of the restated enactment. Specific examples include:
 - **References to the EU:** domestic enactments contain numerous references to “EU law”, “EU obligations”, “member States other than the UK” and “EEA states”. These will require modification to reflect the withdrawal of the UK from the EU. For example, regulation 2(1) of the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Wales) Regulations 2017¹³ defines “Union legislation”. The term is defined by reference to enactments which apply in relation to Wales which give effect to an “EU obligation”. These will require revision as there will be no provision in enactments which give effect to EU obligations following the withdrawal of the UK from the EU (unless the withdrawal agreement contains such provision – to be addressed by the power in section 10).

¹³ S.I. 2017/567 (W. 136).

- **Sefydliadau'r UE:** mae darpariaethau mewn deddfiadau domestig yn gweithredu ar sail aelodaeth o'r UE, gan gynnwys y rhan a chwaraeir gan sefydliadau amrywiol yr UE a'r ddarpariaeth o gyllid drwy gynlluniau a weithredir gan yr UE. Mae rheoliad 3 o Reoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2017¹⁴ yn gwneud darpariaeth ar gyfer darparu "cymorth gwladol" i geiswyr sydd hefyd yn cael "cymorth Undeb". Mae cymorth Undeb yn gymorth a ddarperir o dan Erthygl 23 o Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac sy'n diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007. Gan na fydd "cymorth Undeb" yn daladwy mwyach, ni fydd modd gweithredu meini prawf cymhwysra yn seiliedig ar gael cymorth o'r fath mwyach. Bydd y diwygiad i Reoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2017 yn dibynnu ar y ddarpariaeth gyfatebol a wneir i Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 mewn rheoliadau a wneir o dan adran 3.
- **Trefniadau cilyddol:** mae trefniadau amrywiol a rhwymedigaethau gan yr UE yn arwain yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at raddau amrywiol o gilyddiaeth rhwng Aelod-wladwriaethau, neu'n gwneud hynny yn ofynnol. Un enghraifft yw'r egwyddor o gydnabod cymwysterau yn gilyddol. Mae Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012¹⁵ yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud ag unigolion sydd â'r hawl i addysgu yn y DU yn rhinwedd Cyfarwyddeb y Cyngor 2005/36/EC ar gydnabod cymwysterau proffesiynol (er y gwneir hyn yn anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth ddomestig arall). Wrth ailddatgan Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012, gellid eu haddasu er mwyn ymdrin â newidiadau i'r egwyddor o gydnabod cymwysterau yn gilyddol.

64. Mae is-adran (5) hefyd yn cynnwys yr enghraifft o roi swyddogaethau neu osod cyfyngiadau a oedd mewn cyfarwyddeb gan yr UE ac a oedd mewn grym yn union cyn y diwrnod ymadael ac y mae'n briodol eu dargadw. Mae hyn yn adlewyrchu'r posibilrwydd bod Gweinidogion Cymru wedi gweithredu cyfarwyddeb gan yr UE ond nad ydynt wedi gweithredu'r darpariaethau yn y gyfarwyddeb sy'n darparu i'r Comisiwn Ewropeaidd neu asiantaeth o'r UE gyflawni swyddogaeth. Mewn enghraifft o'r fath, gallai'r deddfiad domestig weithredu ar y sail bod swyddogaeth benodol yn cael ei harfer gan y Comisiwn Ewropeaidd neu asiantaeth o'r UE. Mae is-adran (5)(f) yn cadarnhau bod y pŵer i ailddatgan gydag addasiadau o dan is-adran (2) neu i wneud darpariaeth bellach yn cynnwys y pŵer i ail-greu'r swyddogaeth a'i rhoi, er enghraifft, i Weinidogion Cymru neu awdurdod cyhoeddus priodol.
65. Ni wneir unrhyw gyfeiriad yn is-adran (5) at y pŵer i addasu deddfiad am fod is-adran (1) a (2) a'r diffiniad o ddeddfiad yn adran 20(2) yn ei gwneud yn glir y gellir defnyddio'r pŵer i addasu unrhyw ddeddfiad sydd o fewn cymhwysedd datganoledig yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

¹⁴ O.S. 2017/724 (Cy. 174).

¹⁵ O.S. 2012/724 (Cy. 96).

- **EU institutions:** provisions in domestic enactments operate on the basis of EU membership, including the role played by various EU institutions and the provision of funding through EU-operated schemes. Regulation 3 of the School Milk (Wales) Regulations 2017¹⁴ makes provision for the provision of “national aid” to applicants who are also in receipt of “Union aid”. Union aid is aid provided under Article 23 of Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and (EC) No 1234/2007. As “Union aid” will no longer be payable, an eligibility criteria based on receipt of such aid will no longer be operable. The amendment to the School Milk (Wales) Regulations 2017 will depend on the corresponding provision made to Regulation (EU) No 1308/2013 in regulations made under section 3.
 - **Reciprocal arrangements:** various arrangements and EU obligations directly or indirectly result in, or require, varying degrees of reciprocity across member States. One example is the principle of the mutual recognition of qualifications. The School Teachers’ Qualifications (Wales) Regulations 2012¹⁵ make provision relating to individuals who are entitled to teach in the UK by virtue of Council Directive 2005/36/EC on the recognition of professional qualifications (although indirectly by reference to other domestic legislation). In restating the School Teachers’ Qualifications (Wales) Regulations 2012, modification could be made to address changes to the principle of mutual recognition of qualifications.
64. Subsection (5) also includes the example of conferring functions or imposing restrictions which were in an EU directive and in force immediately before exit day and which it is appropriate to retain. This reflects the possibility that the Welsh Ministers have implemented an EU directive but have not implemented the provisions in the directive which provide for the European Commission or an EU agency to carry out a function. In such an example, the domestic enactment could operate on the basis of a particular function being exercised by the European Commission or EU agency. Subsection (5)(f) confirms that the power to restate with modifications under subsection (2) or make further provision includes the power to recreate the function and confer it, for example, on the Welsh Ministers or an appropriate public authority.
65. No reference is made in subsection (5) to the power to modify an enactment as it is clear from subsection (1) and (2) and the definition of an enactment in section 20(2) that the power can be used to modify any enactment that is wholly or partly within devolved competence.

¹⁴ S.I. 2017/724 (W. 174).

¹⁵ S.I. 2012/724 (W. 96).

66. Mae'r cyfyngiadau ar arfer y pŵer yn adran 4(2) yn cyfateb i'r rheini sy'n gymwys yn adran 3, ac eithrio mân wahaniaeth yn adran 4(7)(d). Mae adran 4(7)(d) yn adlewyrchu'r terfynau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron, yn benodol y cyfyngiad ym mharagraff 1(2) o Ran 2 o Atodlen 7 i DLIC 2006 ar roi swyddogaethau i un o Weinidogion y Goron neu osod swyddogaethau arno. Fodd bynnag, gan fod a wnelo'r pŵer yn adran 4 ag ailddatgan y gyfraith, mae is-adran (7)(d) yn cadarnhau y gall rheoliadau a wneir o dan is-adran (2) ailddatgan swyddogaeth sydd gan un o Weinidogion y Goron oherwydd yr eithriad ym mharagraff 8 o Ran 3 o Atodlen 7 i DLIC 2006.
67. Mae'r un cyfyngiadau o ran amser hefyd yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 4 yn rhinwedd is-adran (8).

Adran 5 - Darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE i barhau i gael effaith

68. Os caiff ei basio, bydd y Bil i Ymadael â'r UE sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd yn diddymu DCE 1972. Yn gyffredinol, mae is-ddeddfwriaeth yn darford yn awtomatig pan fydd y ddeddfwriaeth sylfaenol y mae wedi ei gwneud odani yn peidio â chael effaith oni chaiff ei harbed yn benodol. Felly, byddai unrhyw ddarpariaeth a wneid o dan adran 2(2) o DCE 1972, neu baragraff 1A o Atodlen 2 iddi, yn peidio â chael effaith pan ddiddymir y Ddeddf honno. Mae adran 5 yn gweithredu i ddiogelu offerynnau statudol a wneir o dan y darpariaethau hyn.
69. Mae categori ychwanegol o offeryn statudol hefyd wedi ei ddal o dan adran 5 - y rheini a wneir o dan adran 56 o Ddeddf Cyllid 1973 ("DC 1973"). Mae adran 56 o DC 1973 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i ffioedd a thaliadau gael eu talu am ddarparu unrhyw wasanaethau, cyfleusterau, awdurdodiadau, tystysgrifau neu ddogfennau a ddarparant yn unol ag unrhyw rwymedigaeth gan yr UE. Caiff y mwyafrif o rwymedigaethau'r UE eu gweithredu o dan adran 2(2) o DCE 1972, tra bo'r ddarpariaeth a wneir o dan adran 56 o DC 1973 wedi ei chynnwys yn aml yn yr un offeryn â darpariaeth a wneir o dan adran 2(2) o DCE 1972. O ganlyniad, mae adran 5 yn galluogi offerynnau o'r fath yn eu cyfanrwydd i gael eu trin fel pe baent wedi eu gwneud o dan adran 5. Mae hyn yn osgoi unrhyw ymgais i wneud darpariaeth ar wahân o dan y pwerau gwahanol o fewn yr un offeryn. Gan gydnabod y gall rhai offerynnau statudol gynnwys darpariaethau o dan bwerau eraill hefyd, mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu bod yr offeryn cyfan i'w drin fel pe bai'n cael effaith o dan adran 5.
70. Mae adran 5(4) yn cadarnhau mai dim ond darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad y gellir ei phennu mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1).
71. Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng cwmpas y pwerau yn adrannau 4 a 5. Er enghraifft, gellir pennu darpariaeth a wneir o dan adran 2(2) o DCE 1972 o dan adran 5(1), ond byddai hefyd yn ddeddfiad a wneid yn gyfan gwbl at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2)(a) neu (b) ac felly gellid ei hailddatgan o dan y pŵer yn adran 4. Mae pwerau Gweinidogion Cymru yn adrannau 4 a 5 yn ddisgresiynol a bydd Gweinidogion Cymru yn gallu dewis defnyddio'r naill bŵer neu'r llall mewn cysylltiad â'r darpariaethau.

66. The restrictions on the exercise of the power in section 4(2) match those that apply in section 3, other than a minor difference in section 4(7)(d). Section 4(7)(d) reflects the limits on the Assembly's legislative competence in relation to functions of a Minister of the Crown, specifically the restriction in paragraph 1(2) of Part 2 of Schedule 7 to the GoWA 2006 on conferring or imposing functions on a Minister of the Crown. However, as the power in section 4 is about restating the law, subsection (7)(d) confirms that regulations made under subsection (2) can restate a Minister of the Crown function due to the exception in paragraph 8 of Part 3 of Schedule 7 to the GoWA 2006.
67. The same timing restrictions also apply to regulations made under section 4 by virtue of subsection (8).

Section 5 – Provision made under EU related powers to continue to have effect

68. The EU Withdrawal Bill currently before the UK Parliament will, if passed, repeal the ECA 1972. Generally, secondary legislation lapses automatically when the primary legislation under which it is made ceases to have effect unless saved expressly. Any provision made under section 2(2) of, or paragraph 1A of Schedule 2 to, the ECA 1972 would therefore cease to have effect on repeal of that Act. Section 5 operates to preserve statutory instruments made under these provisions.
69. An additional category of statutory instrument is also captured under section 5 – those made under section 56 of the Finance Act 1973 (“the FA 1973”). Section 56 of the FA 1973 provides a power to the Welsh Ministers to require the payment of fees and charges for the provision of any services, facilities, authorisations, certificates or documents they provide in pursuance of any EU obligation. The majority of EU obligations are implemented under section 2(2) of the ECA 1972, while provision made under section 56 of the FA 1973 is often contained in the same instrument as provision made under section 2(2) of the ECA 1972. As a result, section 5 enables such instruments in their entirety to be treated as having been made under section 5. This avoids any attempt to separate provision made under the different powers within the same instrument. In recognition that some statutory instruments may also contain provisions under other powers, subsection (3) enables the Welsh Ministers to provide that the entire instrument is to be treated as having effect under section 5.
70. Section 5(4) confirms that only provision within the Assembly's legislative competence can be specified in regulations made by the Welsh Ministers under subsection (1).
71. There is a degree of overlap between the scope of the powers in sections 4 and 5. For example, a provision made under section 2(2) of the ECA 1972 can be specified under section 5(1), but would also be an enactment made entirely for a purpose mentioned in section 2(2)(a) or (b) and therefore could be restated under the power in section 4. The powers of the Welsh Ministers in sections 4 and 5 are both discretionary and the Welsh Ministers will have the choice to use either power in respect of the provisions.

72. Yn ogystal â diogelu'r darpariaethau a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE, bydd pennu'r darpariaethau hefyd yn ei gwneud yn bosibl i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r 'pŵer cywiro' yn adran 5(5). Nod y pŵer, yn debyg i'r pwerau yn adrannau 3 a 4, yw galluogi i'r addasiadau angenrheidiol gael eu gwneud i'r darpariaethau a nodir, yng ngoleuni ymadawiad y DU â'r UE. Rhaid i unrhyw addasiad neu ddarpariaeth bellach fod o fewn cymhwysedd datganoledig a bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y ddarpariaeth o dan sylw. Gellir gwneud yr un ddarpariaeth â'r math a wneir o dan adran 4(5) a (6) o dan adran 5(5). Mae is-adran (6)(b) yn ei gwneud yn glir bod y pŵer yn cynnwys pŵer i addasu deddfwriaeth sylfaenol (sydd hefyd ar gael o dan adran 4, ond a gyflawnir drwy ddull gwahanol).
73. Mae'r un cyfyngiadau yn gymwys i arfer y pŵer ag sy'n gymwys i adrannau 3 a 4, ac eithrio nad yw adran 5(7)(d) yn cyfeirio at ailddatgan swyddogaethau Gweinidogion y Goron (fel sy'n wir yn adran 4(5)(d)) gan nad yw'r pwerau yn adran 5(1) a (5) yn ymwneud ag ailddatgan fel sy'n wir yn adran 4.

Adran 6 - Heriau i gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n codi o annilysrwydd offerynnau gan yr UE

74. Mae pob darn o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd ag offeryn gan yr UE. Mae gan Lys Cyfiawnder yr UE awdurdodaeth dros unrhyw her i offeryn gan yr UE. Gellid herio offeryn gan yr UE ar sail diffyg cymhwysedd, torri gofyniad gweithdrefnol hanfodol, torri'r Cytuniadau neu unrhyw reol gyfreithiol sy'n ymwneud â'u cymhwyso neu gamddefnyddio pwerau¹⁶. Gallai her lwyddiannus i offeryn gan yr UE fwrw amheuaeth ar unrhyw ddarn o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n gysylltiedig â hynny. Mae adran 6(1) yn gosod sefyllfa ddiodyfyn nad yw penderfyniad gan Lys Cyfiawnder yr UE fod offeryn gan yr UE yn annilys yn creu hawl yn y gyfraith i herio unrhyw ddarn o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE. Nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw her ar sail arall o ran cyfraith gyhoeddus.
75. Mae adran 6(2) yn darparu tri eithriad i'r sefyllfa ddiodyfyn. Y trydydd eithriad, ym mharagraff (c), yw pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu eithriadau pellach. Gallai hyn gynnwys achosion pan fo Llys Cyfiawnder yr UE wedi penderfynu bod offeryn gan yr UE yn annilys ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae adran 6(3) yn gadarnhad bod y pŵer yn adran 6(2)(c) yn cynnwys y pŵer i ddarparu ar gyfer gwneud her yn erbyn awdurdod cyhoeddus domestig (ond nid un o Weinidogion y Goron - gan adlewyrchu'r terfynau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac yn benodol y cyfyngiad ym mharagraff 1(2) o Ran 2 o Atodlen 7 i DLIC 2006) yn lle un o sefydliadau'r UE.

Adran 7 - Dehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE

76. Bydd ymadawiad y DU â'r UE yn golygu na fydd gan Lys Cyfiawnder yr UE awdurdodaeth mwyach mewn perthynas â'r DU. Felly, ni fydd llysoedd domestig yn gallu atgyfeirio achosion i Lys Cyfiawnder yr UE ar neu ar ôl y diwrnod ymadael.

¹⁶ Erthygl 263 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

72. In addition to preserving the provisions made under EU related powers, specifying the provisions will also make it possible for the Welsh Ministers to use the 'correcting power' in section 5(5). The power is aimed, similarly to the powers in sections 3 and 4, to enable the necessary modifications to be made to the provisions identified, in light of the withdrawal of the UK from the EU. Any modification or further provision must be within devolved competence and necessary to ensure the effective operation of the provision in question. The same provision as the kind made under section 4(5) and (6) can be made under section 5(5). Subsection (6)(b) makes it clear that the power includes a power to modify primary legislation (which is also available under section 4, but achieved by a different approach).
73. The same restrictions apply to the exercise of the power as apply to sections 3 and 4, except that section 5(7)(d) does not refer to restatement of Minister of the Crown functions (as is the case in section 4(5)(d)) as the powers in section 5(1) and (5) do not concern restatement as is the case in section 4.

Section 6 - Challenges to EU derived Welsh law arising from invalidity of EU instruments

74. All EU derived Welsh law is connected in some way to an EU instrument. The CJEU has jurisdiction over any challenge of an EU instrument. An EU instrument could be challenged on the grounds of lack of competence, infringement of an essential procedural requirement, infringement of the Treaties or of any rule of law relating to their application or misuse of powers¹⁶. A successful challenge to an EU instrument could cast doubt on any related EU derived Welsh law. Section 6(1) sets a default position that a decision of the CJEU that an EU instrument is invalid does not create a right in law to challenge any EU derived Welsh law. This does not affect any challenge on other public law grounds.
75. Section 6(2) provides three exceptions to the default position. The third exception, in paragraph (c) is a power for the Welsh Ministers to add further exceptions. This could include instances where the CJEU has determined an EU instrument is invalid after the withdrawal of the UK from the EU. Section 6(3) is a confirmation that the power in section 6(2)(c) includes the power to provide for a challenge to be made against a domestic public authority (but not a Minister of the Crown - reflecting the limits on the Assembly's legislative competence and specifically the restriction in paragraph 1(2) of Part 2 of Schedule 7 to the GoWA 2006) instead of an EU institution.

Section 7 - Interpretation of EU derived Welsh law

76. The withdrawal of the UK from the EU will mean that the CJEU will no longer have jurisdiction in relation to the UK. Domestic courts will therefore be unable to refer cases to the CJEU on or after exit day.

¹⁶ Article 263 of the TFEU.

77. Mae adran 7(2) yn darparu y penderfynir ar unrhyw gwestiwn o ran dilysrwydd, ystyr neu effaith cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn llysoedd y DU yn unol â chyfraith achosion perthnasol Llys Cyfiawnder yr UE cyn i'r DU ymadael â'r UE, egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a ddargedwir a'r Siarter Hawliau Sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith materion eraill, ddehongli mewn dull dibennol pan fo ystyr y mesurau yn aneglur. Mae dull dibennol yn golygu ystyried diben y gyfraith drwy edrych ar ddogfennau perthnasol eraill megis y sail gyfreithiol mewn cytuniadau ar gyfer mesur a phan fo'n berthnasol, y 'travaux preparatoires' (y papurau gwaith) a arweiniodd at fabwysiadu'r mesur, cymhwyso'r dehongliad sy'n gwneud y ddarpariaeth o gyfraith yr UE yn gydnaws â'r cytuniadau, egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a'r Siarter Hawliau Sylfaenol.
78. Mae Llys Cyfiawnder yr UE a llysoedd domestig yn cymhwyso egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE (megis cymesuredd, hawliau sylfaenol, yr egwyddor ragofalus a pheidio â bod yn ôl-weithredol) wrth benderfynu ar gyfreithlondeb mesurau deddfwriaethol a gweinyddol o fewn cwmpas cyfraith yr UE, ac maent yn helpu i ddehongli cyfraith yr UE hefyd.
79. Pan na fo cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE wedi ei diwygio ar neu ar ôl y diwrnod ymadael, yna caiff ei dehongli yn unol â chyfraith achosion Llys Cyfiawnder yr UE cyn i'r DU ymadael â'r UE, egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a ddargedwir a'r Siarter Hawliau Sylfaenol (i'r graddau y bônt yn berthnasol).
80. Mae is-adran (2)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i lysoedd a thribiwnlysoedd y DU ddehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE drwy gyfeirio (ymhlith pethau eraill) at derfynau cymhwysedd yr UE, fel y mae'n bodoli ar y diwrnod y mae'r DU yn ymadael â'r UE. Ni allai mater ddod o fewn cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE pe na bai gan yr UE gymhwysedd yn y maes hwnnw. Mae Erthygl 5(2) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd yn cadarnhau na allai'r Undeb ond gweithredu o fewn terfynau'r cymhwyseddau a roddir iddo gan yr Aelod-wladwriaethau. Mae cymhwyseddau nas rhoddir i'r Undeb yn aros gyda'r Aelod-wladwriaethau.
81. Nid yw adran 7(2) ond yn gymwys i gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE fel y mae'r gyfraith honno heb ei haddasu ar neu ar ôl y diwrnod ymadael. Bydd gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i gyfraith uniongyrchol yr UE o dan y pŵer yn adran 3 yn aml yn cynnwys gwneud addasiadau i'r ddarpariaeth yng nghyfraith uniongyrchol yr UE ar neu ar ôl y diwrnod ymadael. Yn yr un modd, bydd addasiadau i gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE o dan adrannau 4 a 5 yn cael eu gwneud ar neu ar ôl y diwrnod ymadael. Yn yr achosion hyn, ni fydd yr egwyddor yn adran 7(2) yn gymwys ac felly nid oes gofyniad i benderfynu ar gwestiynau o ran dilysrwydd, ystyr neu effaith y rheoliadau hynny yn unol â'r is-adran honno. Fodd bynnag, mae adran 7(5) yn ei gwneud yn glir nad yw is-adran (2) yn gweithredu i atal llys rhag benderfynu ar gwestiwn o ran dilysrwydd, ystyr neu effaith darn o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sydd wedi ei addasu ar neu ar ôl y diwrnod ymadael fel y darperir ar ei gyfer yn is-adran (2) os yw gwneud hynny yn gyson â bwriad yr addasiadau.

77. Section 7(2) provides that any question as to the validity, meaning or effect of EU derived Welsh law will be determined in UK courts in accordance with relevant pre-exit CJEU case law, retained general principles of EU law and the Charter of Fundamental Rights. This includes, amongst other matters, taking a purposive approach to interpretation where the meaning of the measures is unclear. A purposive approach means considering the purpose of the law from looking at other relevant documents such as the treaty legal base for a measure and, where relevant, the 'travaux préparatoires' (the working papers) leading to the adoption of the measure, applying the interpretation that renders the provision of EU law compatible with the treaties, general principles of EU law and the Charter of Fundamental Rights.
78. The general principles of EU law (such as proportionality, fundamental rights, the precautionary principle and non-retroactivity) are applied by the CJEU and domestic courts when determining the lawfulness of legislative and administrative measures within the scope of EU law, and are also an aid to interpretation of EU law.
79. Where EU derived Welsh law has not been amended on or after exit day then it will be interpreted in accordance with pre-exit CJEU case law, retained general principles of EU law and the Charter of Fundamental Rights (so far as they are relevant).
80. Subsection (2)(b) requires UK courts and tribunals to interpret EU derived Welsh law by reference to (among other things) the limits of EU competence, as it exists on the day the UK leaves the EU. A matter could not fall within EU derived Welsh law if the EU had no competence in that area. Article 5(2) of the TEU confirms that the Union could only act within the limits of the competences conferred upon it by the member States. Competences not conferred upon the Union remain with the member States.
81. Section 7(2) only applies to EU derived Welsh law as that law is unmodified on or after exit day. Making corresponding provision to direct EU law under the power in section 3 will often include making modifications to the provision in direct EU law on or after exit day. Similarly, modifications to EU derived Welsh law under sections 4 and 5 will be made on or after exit day. In these cases, the principle in section 7(2) will not apply and therefore there is no requirement to decide questions of validity, meaning or effect of those regulations in accordance with that subsection. However, section 7(5) makes clear that subsection (2) does not operate to prevent a court from determining a question as to the validity, meaning or effect of EU derived Welsh law which has been modified on or after exit day as provided for in subsection (2) if doing so is consistent with the intention of the modifications.

82. Mae adran 7(3) yn galluogi'r Goruchaf Lys, ond nid unrhyw lys domestig arall, i wyro oddi wrth gyfraith achosion Llys Cyfiawnder yr UE cyn i'r DU ymadael â'r UE. Mae is-adrannau (2) a (3) yn cyfuno i ddarparu y bydd i gyfraith achosion Llys Cyfiawnder yr UE cyn i'r DU ymadael â'r UE yr un statws rhwymol, neu statws o ran cysail, mewn llysoedd a thribiwnlysoedd domestig â phenderfyniadau presennol y Goruchaf Lys. Mae is-adran (4) yn adlewyrchu'r arfer presennol a ddefnyddir gan y Goruchaf Lys wrth benderfynu pa un ai i wyro oddi wrth ei benderfyniad blaenorol ei hun. Mae'r prawf a ddefnyddir gan Oruchaf Lys y DU wedi ei nodi mewn datganiad arfer presennol a wnaed gan Dŷ'r Arglwyddi ym 1966 ac a fabwysiadwyd gan y Goruchaf Lys yn 2010. Nododd y datganiad hwnnw, ymhlith pethau eraill, er y bydd yn trin ei benderfyniadau blaenorol fel pe baent yn rhwymol fel arfer, y bydd yn gwyro oddi wrth ei benderfyniadau blaenorol pan ymddengys yn briodol gwneud hynny.
83. Mae adran 7(6) yn darparu diffiniadau at ddibenion adran 7. Mae'r diffiniadau o gyfraith achosion ddomestig a ddargedwir, cyfraith achosion yr UE a ddargedwir ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a ddargedwir wedi eu cyfyngu i'r materion hynny sy'n berthnasol i unrhyw beth y caniateir gwneud rheoliadau mewn cysylltiad ag ef o dan adran 3, 4 neu 5. Mae effaith adran 7 wedi ei chyfyngu felly i gwmpas cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE.

Adran 8 - Rheolau tystiolaeth etc.

84. Yn gyffredinol, trinnir ystyr neu effaith y gyfraith mewn awdurdodaethau eraill fel cwestiwn ffeithiol, i'w brofi mewn achos cyfreithiol drwy dystiolaeth, yn hytrach na thrwy ddyfarniad gan farnwr fel cwestiwn cyfreithiol. Eglurodd adran 3 o DCE 1972, pan ymunodd y DU â'r UE, fod barnwyr y DU i benderfynu ar ystyr neu effaith Cytuniadau'r UE, neu ddilysrwydd, ystyr neu effaith unrhyw offeryn gan yr UE, fel cwestiwn cyfreithiol, yn unol â'r egwyddorion a osodwyd gan Lys Cyfiawnder yr UE a'i benderfyniadau perthnasol. Bydd cyfraith yr UE sy'n cael ei diogelu gan y Ddeddf yn dod yn gyfraith ddomestig, ac felly barnwyr yn llysoedd Cymru a Lloegr a fydd yn ei dehongli. Ni fydd rhai darnau o gyfraith yr UE yn dod yn gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE, ond efallai y byddant yn dal i fod yn berthnasol i ddehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE (er enghraifft, efallai y bydd rhaid i lys ystyried ystyr cyfarwyddeb gan yr UE wrth ddehongli rheoliadau domestig a wneir i weithredu'r gyfarwyddeb honno). Mae adran 8(1) yn darparu, i'r graddau bod angen penderfynu ar ystyr neu effaith cyfraith yr UE er mwyn i lys ddehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE, y bydd barnwyr yn parhau i benderfynu ar yr ystyr hwnnw neu'r effaith honno eu hunain fel cwestiwn cyfreithiol, yn hytrach na thrin hynny yn gwestiwn ffeithiol.

82. Section 7(3) enables the Supreme Court, but no other domestic court, to depart from pre-exit CJEU case law. Subsections (2) and (3) combine to provide that pre-exit CJEU case law will have the same binding, or precedent, status in domestic courts and tribunals as existing decisions of the Supreme Court. Subsection (4) reflects the current practice employed by the Supreme Court when deciding whether to depart from its own previous decision. The test the UK Supreme Court uses is set out in an existing practice statement made by the House of Lords in 1966 and adopted by the Supreme Court in 2010. That statement set out, among other things, that while treating its former decisions as normally binding, it will depart from its previous decisions “when it appears right to do so”.
83. Section 7(6) provides definitions for the purposes of section 7. The definitions of retained domestic case law, retained EU case law and retained general principles of EU law are limited to such matters as are relevant to anything in respect of which regulations may be made under section 3, 4 or 5. The effect of section 7 is therefore limited to the scope of EU derived Welsh law.

Section 8 - Rules of evidence etc.

84. Generally, the meaning or effect of the law in other jurisdictions is treated as a question of fact, to be proved in legal proceedings by evidence, rather than determined by a judge as a question of law. Section 3 of the ECA 1972 clarified that, when the UK joined the EU, UK judges were to determine the meaning or effect of the EU Treaties, or the validity, meaning or effect of any EU instrument, as a question of law, in accordance with the principles laid down by and relevant decisions of the CJEU. The EU law which is being preserved by the Act will become domestic law, and so fall to be interpreted by judges in the courts of England and Wales. Some EU law will not become EU derived Welsh law, but may still be relevant to the interpretation of the EU derived Welsh law (for example, a court may have to consider the meaning of an EU directive when interpreting domestic regulations made to implement that directive). Section 8(1) provides that, to the extent that determining the meaning or effect of EU law is necessary for a court to interpret EU derived Welsh law, judges will continue to determine that meaning or effect themselves as a question of law, rather than treat it as a question of fact.

85. Tybir bod materion sydd wedi eu 'cydnabod heb dystiolaeth' o fewn gwybodaeth y llys eisoes, ac felly nid yw'n ofynnol eu 'profi' i'r llys. Er enghraifft, mae'n ofynnol i Ddeddfau gan y Cynulliad gael eu cydnabod heb dystiolaeth¹⁷. Mae adran 8(3) yn darparu y gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu i sylw barnwrol gael ei roi i fater perthnasol, ac ar gyfer derbynoldeb mewn achosion cyfreithiol dystiolaeth o fater perthnasol ac offerynnau a dogfennau a ddyroddir gan endid o'r UE neu sydd o dan gadwraeth endid o'r UE, er mwyn sicrhau y gellir rhoi rheolau tystiolaethol priodol ar waith er mwyn adlewyrchu'r dirwedd gyfreithiol newydd ar ôl ymadael â'r UE. Gall rheoliadau o dan adran 8 ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol (is-adran (5)).

Adran 9 – Cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol

86. Gallai ymadawiad y DU â'r UE arwain yn awtomatig at dorri rhwymedigaethau rhyngwladol y DU gan y DU. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, am fod cydymffurfedd â rhwymedigaethau rhyngwladol yn gysylltiedig â pharhau i gydymffurfio â chyfraith yr UE, neu'n dibynnu ar hynny. Bydd y pŵer yn adran 9 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth briodol i atal neu unioni unrhyw achos o'r fath o dorri rhwymedigaethau rhyngwladol. Gallai hyn gynnwys gwneud darpariaeth i weithredu confensiwn rhyngwladol a weithredid o'r blaen yn rhinwedd bod yn aelod o'r UE.
87. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau wedi ei gyfyngu i ddarpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig, fel y'i diffinnir yn adran 17. Oherwydd y caniateir i'r pŵer yn adran 9 gael ei ddefnyddio i wneud rheoliadau i ddod i rym cyn ymadael, bydd y cyfyngiad yn adran 108(6)(c) o DLIC 2006 ar wneud deddfwriaeth sy'n anghydnaws â chyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol i reoliadau sy'n dod i rym cyn ymadael.
88. Mae'r pŵer yn cynnwys y pŵer i addasu deddfwriaeth sylfaenol, ond mae'n ddarostyngedig i gyfyngiadau sy'n debyg i'r rheini a oedd yn gymwys i adrannau 3 a 5. Yr unig wahaniaethau yw nad oes cyfyngiad ar osod na chynyddu trethiant (er y bydd y terfynau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhoi rhywfaint o gyfyngiad o ran trethiant) ac ni ellir gwneud i adran 9 weithredu'r cytundeb ymadael. Mae'r gwaharddiad ar ddefnyddio'r pŵer i weithredu'r cytundeb ymadael yn adlewyrchu'r debygolïaeth y byddai unrhyw gytundeb ymadael rhwng y DU a'r UE yn ffurfio rhwymedigaethau rhyngwladol ar ran y DU. Byddai gweithredu'r cytundeb ymadael yn dod o dan y pŵer yn adran 10.

Adran 10 – Gweithredu'r cytundeb ymadael

89. Mae adran 10 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i weithredu cytundeb ymadael y mae'r DU a'r UE yn dod iddo o dan Erthygl 50(2) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd (neu'r Erthygl honno fel y'i cymhwysir gan Gytuniad Euratom).
90. Ni ellir defnyddio'r pŵer ond i wneud darpariaeth a ddylai fod mewn grym ar neu cyn y diwrnod ymadael. Pan fo angen i unrhyw ddarpariaeth ddod i rym ar ôl y diwrnod ymadael, ni ellir defnyddio'r pŵer. Byddai angen i unrhyw addasiadau ar ôl ymadael fod yn destun deddfwriaeth bellach.

¹⁷ Gweler adran 107(4) o DLIC 2006.

85. Matters which are ‘judicially noticed’ are deemed to be already within the knowledge of the court, and so are not required to be ‘proved’ to the court. For example, Acts of the Assembly are required to be judicially noticed¹⁷. Section 8(3) provides that the Welsh Ministers can make regulations which provide for judicial notice to be taken of a relevant matter, and for the admissibility in legal proceedings of evidence of both a relevant matter and instruments and documents issued by or in the custody of an EU entity, to ensure that appropriate evidential rules can be put in place to reflect the new legal landscape after exit. Regulations under section 8 can amend primary legislation (subsection (5)).

Section 9 – Complying with international obligations

86. The withdrawal of the UK from the EU could automatically result in the UK being in breach of the international obligations of the UK. This could occur for example by virtue of compliance with international obligations being linked to or dependent on continued compliance with EU law. The power in section 9 will enable the Welsh Ministers to make appropriate provision to prevent or remedy any such breach. This could include making provision to implement an international convention which was previously implemented by virtue of membership of the EU.
87. The power to make regulations is restricted to provision within devolved competence, as defined in section 17. As the power in section 9 may be used to make regulations to come into force prior to exit, the restriction in section 108(6)(c) of the GoWA 2006 on legislating incompatibly with EU law will continue to be relevant to regulations coming into force before exit.
88. The power includes the power to modify primary legislation, but is subject to similar restrictions as those that applied to sections 3 and 5. The only differences are there is no restriction on imposing or increasing taxation (although the limits on the Assembly’s legislative competence will provide a degree of restriction in terms of taxation) and section 9 cannot be made to implement the withdrawal agreement. The prohibition on using the power to implement the withdrawal agreement reflects the likelihood that any withdrawal agreement between the UK and the EU would form international obligations on the part of the UK. Implementation of the withdrawal agreement would fall under the power in section 10.

Section 10 – Implementing the withdrawal agreement

89. Section 10 gives the Welsh Ministers a power to make regulations to implement a withdrawal agreement concluded between the UK and the EU under Article 50(2) of the TEU (or that Article as applied by the Euratom Treaty).
90. The power can only be used to make provision that should be in force on or before exit day. Where any provision is needed to come into force after exit day, the power cannot be used. Any post-exit modifications would need to be the subject of further legislation.

¹⁷ See section 107(4) of the GoWA 2006.

91. Ni ellir defnyddio'r pŵer ond i wneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad a ddiffinnir yn adran 17. Caiff rheoliadau a wneir o dan yr adran hon ddod i rym cyn ac ar y diwrnod ymadael. Pan fo'r rheoliadau o dan adran 10 i ddod i rym cyn ymadael, bydd y cyfyngiad ar wneud deddfwriaeth sy'n anghydnaws â chyfraith yr UE yn adran 108(6)(c) o DLIC 2006 yn berthnasol. Pan fo rheoliadau o dan adran 10 i ddod i rym ar y diwrnod ymadael (noder na all y rheoliadau gynnwys darpariaeth i ddod i rym ar ôl y diwrnod ymadael – gweler is-adran (1)), ni fydd y cyfyngiad yn adran 108(6)(c) sy'n ymwneud â gwneud deddfwriaeth sy'n anghydnaws â chyfraith yr UE yn berthnasol gan na fydd y DU yn aelod o'r UE mwyach ac felly ni fydd yn ddarostyngedig i gyfraith yr UE.
92. Gellir defnyddio'r pŵer i addasu deddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys y Ddeddf. Diffinnir 'addasu' yn adran 20(1) ac mae'n cynnwys diwygio, diddymu neu ddirymu deddfwriaeth.
93. Mae'r pŵer yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau ag sy'n gymwys i'r pŵer yn adran 3. Mae datganoli yn darparu cyfyngiad pellach ar gwmpas y pŵer, nid yn unig o ran y pwnc y gellid ei gynnwys yn y rheoliadau, ond hefyd o ran y cyfyngiadau yn Rhan 2 o Atodlen 7 i DLIC 2006 sy'n cynnwys gwaharddiad ar addasu darpariaethau penodedig yn DLIC 2006, DLIC 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ynghyd â DCE 1972, Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2005¹⁸ yn eu cyfanrwydd.
94. Mae adran 18 yn cadarnhau nad yw'r ffaith bod y pŵer hwn (a phwerau eraill yn y Ddeddf) yn dod i ben ar y diwrnod ymadael yn effeithio ar barhad mewn grym y rheoliadau a wneir ar neu cyn y diwrnod ymadael.

Adran 11 – Pŵer i wneud darpariaeth sy'n cyfateb i gyfraith yr UE ar ôl y diwrnod ymadael

95. Mae adran 11 yn creu pŵer disgrisiynol i Weinidogion Cymru gadw bob yn gam â chyfraith yr UE ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Os caiff ei basio, byddai'r Bil i Ymadael â'r UE yn diddymu DCE 1972, gan gynnwys adran 2(2). Ni ellid adlewyrchu yn ddomestig unrhyw ddatblygiadau yng nghyfraith yr UE yn dilyn ymadawiad y DU heb unrhyw bwerau perthnasol eraill sy'n bodoli eisoes. Mae adran 11 yn parhau â'r pŵer i weithredu cyfraith yr UE, er na fyddai rhwymedigaeth i weithredu cyfraith yr UE, gan na fydd y DU yn aelod o'r UE mwyach.
96. Fel gydag adran 2(2) o DCE 1972, gall y pŵer addasu deddfwriaeth sylfaenol ac mae'n ddarostyngedig i gyfyngiadau sy'n ymwneud â gosod neu gynyddu trethiant, darpariaeth ôl-weithredol a throseddau. Mae is-adran (3) yn adlewyrchu y bydd yn ofynnol addasu cyfraith yr UE i raddau amrywiol cyn y gall fod yn gymwys yn effeithiol mewn cyd-destun domestig.

¹⁸ O.S. 2005/1505.

91. The power can only be used to make provision within the devolved competence of the Assembly which is defined in section 17. Regulations made under this section may come into force before and on exit day. Where the regulations under section 10 are to come into force prior to exit, the restriction on legislating incompatibly with EU law in section 108(6)(c) of the GoWA 2006 will be relevant. Where regulations under section 10 are to come into force on exit day (to note the regulations cannot include provision to come into force after exit day – see subsection (1)), the restriction in section 108(6)(c) relating to legislating incompatibly with EU law will not be relevant as the UK will no longer be a member of the EU and therefore not subject to EU law.
92. The power can be used to modify primary legislation, including the Act. ‘Modify’ is defined in section 20(1) and includes amending, repealing or revoking legislation.
93. The power is subject to the same restrictions as apply to the power in section 3. Devolution provides further restriction on the scope of the power, not only in terms of the subject matter that could be contained in the regulations, but also in terms of the restrictions in Part 2 of Schedule 7 to the GoWA 2006 which includes prohibition on modifying specified provisions in the GoWA 2006, the GoWA 1998 and the Public Audit (Wales) Act 2013 and the entirety of the ECA 1972, the Data Protection Act 1998, the Human Rights Act 1998, the Civil Contingencies Act 2004 and the Re-Use of Public Sector Information Regulations 2005¹⁸.
94. Section 18 confirms that the expiry of this power (and others in the Act) on exit day does not affect the continuation in force of the regulations made on or before exit day.

Section 11 – Power to make provision corresponding to EU law after exit day

95. Section 11 creates a discretionary power for the Welsh Ministers to keep pace with EU law following the withdrawal of the UK from the EU. The EU Withdrawal Bill would, if passed, repeal the ECA 1972, including section 2(2). Any developments in EU law following the withdrawal of the UK could not be reflected domestically in the absence of any other existing relevant powers. Section 11 continues the power to implement EU law, although, as the UK will no longer be a member of the EU, there would not be an obligation to implement EU law.
96. As with section 2(2) of the ECA 1972, the power can modify primary legislation and is subject to restrictions relating to imposing or increasing taxation, retrospective provision and criminal offences. Subsection (3) reflects that EU law will require varying degrees of modification before it can apply effectively in a domestic context.

¹⁸ S.I. 2005/1505.

97. Nid yw'r cyfyngiad ym mharagraff 1(1)(c) o Atodlen 2 i DCE 1972 ar roi pwerau i ddeddfu yn gymwys i'r pŵer yn adran 11. Gan fod y diffiniad o gymhwysedd datganoledig wedi ei lunio drwy gyfeirio at ddarpariaeth y gellid ei chynnwys mewn Deddf gan y Cynulliad, mae'r pŵer yn cynnwys y pŵer i ddirprwyo'r pŵer o dan adran 11. Mae hyn yn adlewyrchu y gallai rheoliad gan yr UE, penderfyniad gan yr UE neu gyfarwydddeb gan yr UE gynnwys pŵer i wneud deddfwriaeth drydyddol yr UE. Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu arfer y pŵer yn adran 11 i wneud darpariaeth gyfatebol i'r offeryn gan yr UE o dan sylw, gallai Gweinidogion Cymru ystyried pa un ai i roi'r pŵer i wneud deddfwriaeth drydyddol yr UE iddynt hwy eu hunain neu i awdurdod cyhoeddus arall.

Adran 12 - Adolygu'r pŵer yn adran 11(1) a machlud y pŵer

98. Mae adran 12 yn cyfyngu ar oes pŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 11(1) i wneud darpariaeth sy'n cyfateb i gyfraith yr UE ar ôl y diwrnod ymadael. Yn benodol, mae'n golygu y bydd y pŵer yn peidio â chael effaith 5 mlynedd ar ôl y diwrnod ymadael. Gellir estyn y pŵer, ond dim ond os gwneir rheoliadau gan Weinidogion Cymru. Gellir estyn y cyfnod am gyfnodau dilynol nad ydynt yn fwy na 5 mlynedd yn unigol. Er enghraifft, os pennir 29 Mawrth 2019 fel y diwrnod ymadael, byddai'r pŵer yn dod i ben yn 2024. Yn 2024, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu estyn y pŵer am 5 mlynedd arall hyd 2029. Yn yr un modd, yn 2029, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu estyn y pŵer am 5 mlynedd arall hyd 2034.
99. Cyn arfer y pŵer i estyn effaith y pŵer yn adran 11(1), rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad ar weithrediad ac effaith y pŵer yn adran 11(1) ac a oes ei angen o hyd (ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol). Mae hyn er mwyn rhoi i'r Cynulliad y sail i benderfynu a oes angen y pŵer o hyd cyn estyn ei effaith.

Adran 13 ac Atodlen 1 - Ffioedd a thaliadau

100. Mae'r pwerau i wneud rheoliadau a geir yn yr adrannau a restrir ym mharagraff 1(1)(a) i (f) o Atodlen 1 wedi eu cyfyngu o ran amser, wedi eu cyfyngu o ran gosod neu gynyddu trethiant neu wedi eu cyfyngu o ran y ddau. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer codi ffioedd neu daliadau eraill, neu mewn cysylltiad â chodi ffioedd neu daliadau eraill, mewn cysylltiad ag arfer swyddogaeth a roddir i awdurdod cyhoeddus o dan yr adrannau a bennir ym mharagraff 1(1) yn barhaus.
101. Mae adran 2(2) o DCE 1972 ac adran 56 o DC 1973 yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i ffioedd a thaliadau gael eu talu am ddarparu unrhyw wasanaethau, cyfleusterau, awdurdodiadau, tystysgrifau neu ddogfennau a ddarparant yn unol ag unrhyw rwymedigaeth gan yr UE. Bydd y pŵer ym mharagraff 1 o Atodlen 1 yn disodli'r pwerau hyn.
102. Mae paragraff 1(2)(c) yn galluogi i'r pŵer i osod ffioedd a thaliadau gael ei ddirprwyo i awdurdod cyhoeddus. Bydd unrhyw bwerau a ddirprwyir o dan y ddarpariaeth hon yn ddarostyngedig i'r un terfynau, cyfyngiadau a chraffu ag sy'n gymwys pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer.

97. The restriction in paragraph 1(1)(c) of Schedule 2 to the ECA 1972 on conferring powers to legislate does not apply to the power in section 11. As the definition of devolved competence is framed by reference to provision that could be included in an Act of the Assembly, the power does include the power to delegate the power under section 11. This reflects that an EU regulation, EU decision or EU directive could contain a power to make EU tertiary legislation. If the Welsh Ministers decide to exercise the power in section 11 to make corresponding provision to the EU instrument in question, the Welsh Ministers could consider whether to confer the power to make EU tertiary legislation on themselves or on another public authority.

Section 12 – Review and sunset of the power in section 11(1)

98. Section 12 limits the life of the power of the Welsh Ministers under section 11(1) to make provision corresponding to EU law after exit day. Specifically, it means that the power will cease to have effect 5 years after exit day. The power can be extended, but only if regulations are made by the Welsh Ministers. The period can be extended for subsequent periods which do not individually exceed 5 years. For example, if exit day is specified as 29 March 2019, the power would expire in 2024. In 2024, the Welsh Ministers may decide to extend the power for another 5 years until 2029. Similarly, the Welsh Ministers may decide in 2029 to extend the power for another 5 years until 2034.
99. Prior to the exercise of the power to extend the effect of the power in section 11(1), the Welsh Ministers must table a report on the operation and effect of the power in section 11(1) and whether it continues to be needed (having consulted relevant stakeholders). This is to give the Assembly the basis on which to decide whether the power continues to be needed before extending its effect.

Section 13 and Schedule 1 – Fees and charges

100. The powers to make regulations contained in the sections listed in paragraph 1(1)(a) to (f) of Schedule 1 are either time limited, restricted in terms of imposing or increasing taxation or both. This power enables the Welsh Ministers to make provision for, or in connection with, the charging of fees or other charges in connection with the exercise of a function conferred on a public authority under the sections specified in paragraph 1(1) on an ongoing basis.
101. Section 2(2) of the ECA 1972 and section 56 of the FA 1973 enable the Welsh Ministers to require the payment of fees and charges for the provision of any services, facilities, authorisations, certificates or documents they provide in pursuance of any EU obligation. The power in paragraph 1 of Schedule 1 will replace these powers.
102. Paragraph 1(2)(c) enables the power to set fees and charges to be delegated to a public authority. Any powers delegated under this provision will be subject to the same limitations, restrictions and scrutiny applicable to the Welsh Ministers' exercise of the power.

103. Mae adran 2(2) o DCE 1972 ac adran 56 o DC 1973 wedi eu defnyddio sawl gwaith yn ystod aelodaeth y DU o'r UE i osod ffioedd a thaliadau mewn cysylltiad â rhwymedigaethau gan yr UE. Mae adran 5 yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi a diogelu'r offerynnau statudol a wneir o dan y pwerau hyn sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer ffioedd a thaliadau ynghyd â'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cysylltiedig. Gellid gwneud rheoliadau o dan adran 4 hefyd i ailddatgan ac felly ddiogelu taliadau neu ffioedd o'r fath. Fodd bynnag, os caiff ei basio, bydd y Bil i Ymadael â'r UE sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd yn golygu na fydd y pwerau yn DCE 1972 a DC 1973 mewn perthynas â ffioedd a thaliadau ar gyfer rhwymedigaethau gan yr UE ar gael mwyach. Mae paragraff 2 o Atodlen 1 yn sicrhau y gall Gweinidogion Cymru addasu'r ffioedd a'r taliadau a ddiogelir yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan adran 4 neu 5.
104. Mae'r pŵer ym mharagraff 2 o Atodlen 1 yn ddarostyngedig i derfynau, yn benodol na ellir defnyddio'r pŵer ar gyfer taliadau neu ffioedd newydd. Gellid defnyddio'r pŵer, er enghraifft, i gynyddu ffioedd yn unol â chwyddiant er mwyn sicrhau y gall yr awdurdod cyhoeddus a chanddo'r dasg o ddarparu'r gwasanaeth barhau i dalu costau darparu gwasanaeth perthnasol, megis arolygiadau iechyd anifeiliaid.
105. Mae paragraff 3 o Atodlen 1 yn sicrhau bod unrhyw ffioedd neu daliadau a oedd wedi eu gosod gan reoliadau a wnaed o dan adran 2(2) o DCE 1972 yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau o dan y Ddeddf honno - sef na allant osod na chynyddu trethiant (gweler paragraff 1(1)(a) o Atodlen 2 i DCE 1972).
106. Mae paragraff 4 yn adlewyrchu'r ffaith y gellid gwneud darpariaeth ar gyfer ffioedd a thaliadau o dan adrannau 3, 4, 5, 9, 10 ac 11. Er enghraifft, gellid pennu darpariaeth ynghylch ffioedd a thaliadau mewn rheoliadau a wneir o dan adran 56 o DC 1973 mewn rheoliadau a wneir o dan adran 5(1). Fodd bynnag, gall fod yn ofynnol addasu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau y gall barhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae paragraff 4 yn cadarnhau y gellir gwneud darpariaeth o'r fath o dan adran 5(5) ac na fyddai angen ei gwneud o dan Atodlen 1.

Adrannau 14 a 15 - Cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth a chydsyniad Gweinidogion Cymru i gymeradwyo neu gadarnhau is-ddeddfwriaeth

107. Mae'r adrannau hyn yn sefydlu'r sefyllfa ddiodyn yn y gyfraith ei bod yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y gall unrhyw berson wneud, cadarnhau neu gymeradwyo is-ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu pynciau datganoledig a wneir o dan Ddeddfau Seneddol a gaiff eu pasio ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym (ac sy'n bodloni amodau eraill). Gall Senedd y DU newid y sefyllfa ddiodyn hon os yw'n dymuno gwneud hynny pan fydd yn creu swyddogaethau newydd i wneud, cadarnhau neu gymeradwyo is-ddeddfwriaeth.
108. Mae pum amod ar gyfer cymhwyso'r gofyniad cydsyniad mewn geiriau tebyg ym mhob adran, gyda'r gwahaniaethau yn ymwneud â'r math o ddeddfwriaeth a gwmpesir gan bob adran. Mae adran 14 yn cwmpasu is-ddeddfwriaeth a wneir gan un o Weinidogion y Goron ac mae adran 15 yn cwmpasu is-ddeddfwriaeth a gymeradwyir neu a gadarnheir gan un o Weinidogion y Goron.

103. Section 2(2) of the ECA 1972 and section 56 of the FA 1973 have been used on a number of occasions during the UK's membership of the EU to set fees and charges in connection with EU obligations. Section 5 enables the Welsh Ministers to identify and preserve the statutory instruments made under these powers which make provision for fees and charges along with the provisions relating to the accompanying service. Regulations could also be made under section 4 to restate and therefore preserve such charges or fees. However, the EU Withdrawal Bill currently before the UK Parliament, if passed, will mean that the powers in the ECA 1972 and the FA 1973 in relation to fees and charges for EU obligations will no longer be available. Paragraph 2 of Schedule 1 ensures that the Welsh Ministers are able to modify the fees and charges preserved by virtue of regulations made under section 4 or 5.
104. The power in paragraph 2 of Schedule 1 is subject to limitations, notably that the power cannot be used for new charges or fees. The power could for example be used to uprate fees in line with inflation to ensure that the costs of providing a relevant service, such as animal health inspections, can continue to be met by the public authority tasked with providing the service.
105. Paragraph 3 of Schedule 1 ensures that any fees or charges which had been set by regulations made under section 2(2) of the ECA 1972 continue to be subject to the same restrictions under that Act – that they cannot impose or increase taxation (see paragraph 1(1)(a) of Schedule 2 to the ECA 1972).
106. Paragraph 4 reflects that provision for fees and charges could be made under sections 3, 4, 5, 9, 10 and 11. For example, provision about fees and charges in regulations made under section 56 of the FA 1973 could be specified in regulations made under section 5(1). However, the provision may require modification to ensure that it can continue to operate effectively following the withdrawal of the UK from the EU. Paragraph 4 confirms that such provision can be made under section 5(5) and would not need to be made under Schedule 1.

Sections 14 and 15 – Welsh Ministers' consent to making subordinate legislation and Welsh Ministers' consent to approval or confirmation of subordinate legislation

107. These sections establish the default position in law that the Welsh Ministers' consent is required before any person can make, confirm or approve subordinate legislation covering devolved subjects that are made under Acts of Parliament passed after the Act comes into force (and which meet other conditions). This default position can be changed by the UK Parliament if it wishes when it creates new functions to make, confirm or approve subordinate legislation.
108. There are five conditions for the application of the consent requirement in similar terms in each section, with the differences relating to the type of legislation covered by each section. Section 14 covers subordinate legislation made by a Minister of the Crown and section 15 covers subordinate legislation approved or confirmed by a Minister of the Crown.

109. Mae adrannau 14 a 15 yn gymwys pan fo pob un o amodau 1, 2 a 3 wedi eu bodloni a bo amod 4 neu 5 wedi ei fodloni. Ni fyddai'r gofyniad i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru yn codi pan fo'r is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud, ei chadarnhau neu ei chymeradwyo gan Weinidogion Cymru.
110. Mae amod 1 yn gysylltiedig â therfynau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Nid yw wedi ei fodloni pan na fo'r is-ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig fel y'i diffinnir yn adran 17. Felly, ni allai gofyniad ar gyfer cydsyniad Gweinidogion Cymru godi ar gyfer darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Er enghraifft, ni fyddai darpariaeth mewn pwnc nad yw wedi ei ddatganoli, megis bancio, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac felly ni allai fodloni amod 1.
111. Mae amod 2 yn cyfyngu effaith adrannau 14 a 15 i gwmpas cyfraith yr UE fel y'i diffinnir yn adran 20(1) o'r Ddeddf. Mae'r diffiniad o gyfraith yr UE yn adran 20(1) yn gyson â'r diffiniad o "EU law" yn adran 158(1) o DLIC 2006.
112. Mae amod 3 yn cyfyngu adrannau 14 a 15 i is-ddeddfwriaeth a wneir drwy offeryn statudol. Yn adran 15 (sy'n gymwys i gymeradwyo a chadarnhau is-ddeddfwriaeth), mae hefyd yn amod bod y deddfwriaeth a gymeradwyir neu a gadarnheir i gael ei gwneud gan berson ac eithrio Gweinidogion Cymru.
113. Mae amod 4 yn cwmpasu sefyllfaoedd pan fo is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud, ei chymeradwyo neu ei chadarnhau o dan swyddogaethau newydd i wneud, cadarnhau neu gymeradwyo is-ddeddfwriaeth a roddir gan neu o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig. Er mwyn bodloni amod 4, rhaid i'r Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi'r swyddogaeth gael ei deddfu ar ôl y diwrnod y daw'r adran i rym. Pan fo'r swyddogaeth wedi ei rhoi mewn Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig sydd wedi ei deddfu cyn i'r adran ddod i rym, nid yw amod 4 wedi ei fodloni. Hyd yn oed pan fo swyddogaeth yn cael ei harfer ar ôl i'r adran ddod i rym, os cafodd y Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi'r swyddogaeth ei deddfu cyn i'r adran ddod i rym, nid yw amod 4 wedi ei fodloni.
114. Mae amod 5 yn cwmpasu sefyllfaoedd pan fo is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud, ei chymeradwyo neu ei chadarnhau o dan swyddogaethau presennol a addesir gan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig a ddeddfir ar ôl i'r adrannau ddod i rym. Er mwyn bodloni amod 5, rhaid i'r addasiad olygu bod y swyddogaeth yn arferadwy fel bod is-ddeddfwriaeth a wneir, a gadarnheir neu a gymeradwyir yn cynnwys darpariaeth ddatganoledig na allai ei chynnwys yn flaenorol.
115. Mae adran 15(9) yn cadarnhau bod swyddogaeth o roi cydsyniad i is-ddeddfwriaeth wedi ei chynnwys o fewn cwmpas adran 15.

Adran 16 - Dyletswydd i adrodd ar arfer swyddogaethau o dan adrannau 14(1) a 15(1)

116. Rhaid i ddarpariaeth a wneir mewn is-ddeddfwriaeth y mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar ei chyfer o dan adrannau 14(1) a 15(1) fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, a gellid ei chynnwys mewn Deddf Seneddol. Mae adran 16 yn darparu dull adrodd i sicrhau bod y Cynulliad yn cael ei hysbysu'n rheolaidd wrth i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau o ran cydsyniad o dan adrannau 14(1) a 15(1) o'r Ddeddf.

109. Sections 14 and 15 apply where all of conditions 1, 2 and 3 are met and condition 4 or 5 is met. The requirement to seek Welsh Ministers' consent would not arise where the subordinate legislation is being made, confirmed or approved by the Welsh Ministers.
110. Condition 1 is linked to the limits of the Assembly's legislative competence. It is not met where the subordinate legislation does not contain provision within devolved competence as defined in section 17. A requirement for Welsh Ministers' consent could therefore not arise for provisions in subordinate legislation that are outside the legislative competence of the Assembly. For example, provision in a subject that is not devolved, such as banking, would not be within the Assembly's legislative competence and could therefore not meet condition 1.
111. Condition 2 limits the effect of sections 14 and 15 to the scope of EU law as defined in section 20(1) of the Act. The definition of EU law in section 20(1) is consistent with the definition of EU law in section 158(1) of the GoWA 2006.
112. Condition 3 limits sections 14 and 15 to subordinate legislation made by statutory instrument. In section 15 (which applies to approval and confirmation of subordinate legislation) it is also a condition that the legislation to which approval or confirmation is given is to be made by a person other than the Welsh Ministers.
113. Condition 4 covers situations where subordinate legislation is made, approved or confirmed under new functions to make, confirm or approve subordinate legislation conferred by or under an Act of Parliament. For condition 4 to be met, the Act of Parliament conferring the function must be enacted after the day on which the section comes into force. Where the function has been conferred in an Act of Parliament that has been enacted before the section comes into force, condition 4 is not met. Even where a function is exercised after the section has come into force, if the Act of Parliament conferring the function was enacted before the section came into force, condition 4 is not met.
114. Condition 5 covers situations where subordinate legislation is made, approved or confirmed under existing functions that are modified by an Act of Parliament which is enacted after the sections have come into force. For condition 5 to be met the modification must result in the function being exercisable so that subordinate legislation made, confirmed or approved contains devolved provision that it could not previously contain.
115. Section 15(9) confirms that a function of giving consent to subordinate legislation is included within the scope of section 15.

Section 16 – Duty to report on exercise of functions under sections 14(1) and 15(1)

116. Provision made in subordinate legislation which needs Welsh Ministers' consent under sections 14(1) and 15(1) must be within the Assembly's legislative competence and could be contained in an Act of the Assembly. Section 16 provides a reporting mechanism to ensure the Assembly is kept informed of the exercise by the Welsh Ministers of their consent functions under sections 14(1) and 15(1) of the Act.

117. Nid yw'r dull adrodd yn golygu ei bod yn ofynnol llunio adroddiad unigol mewn perthynas â phob cydsyniad unigol. Gallai adroddiad a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynnwys manylion mwy nag un cydsyniad, ar yr amod bod yr adroddiad yn cael ei osod o fewn 60 niwrnod i roi'r cydsyniad a bod yr adroddiad yn cynnwys y manylion gofynnol yn adran 16(2) mewn perthynas â phob cydsyniad.
118. Mae adran 16(3) yn sicrhau bod unrhyw ddiwrnodau pan fo Cynlluniad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddi-ddymu neu'n cael toriad am fwy na pedwar diwrnod yn cael eu hanwybyddu at ddibenion cyfrifo'r cyfnod 60 niwrnod y mae rhaid i adroddiad gael ei osod o'i fewn ar ôl rhoi cydsyniad. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r cyfnod 60 niwrnod yn dod i ben tra na fo'r Cynulliad yn eistedd am gyfnod estynedig a fyddai'n atal Gweinidogion Cymru rhag gosod adroddiad.

Adran 17 - Ystyr cymhwysedd datganoledig

119. Mae adran 17 yn diffinio cymhwysedd datganoledig drwy gyfeirio at ddarpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan y Cynulliad a ddeddfir ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym. Mae hyn yn cadarnhau'r terfynau o ran cymhwysedd deddfwriaethol, ond mae hefyd yn golygu y gall rheoliadau o dan yr adrannau penodedig hefyd wneud darpariaeth y gallai Deddf gan y Cynulliad ei gwneud, gan gynnwys addasu deddfwriaeth sylfaenol a dirprwyo'r pŵer i wneud rheoliadau. Cadarnheir y ffaith y gellir defnyddio'r pwerau i addasu deddfwriaeth sylfaenol yn yr adrannau perthnasol.
120. Wrth asesu cymhwysedd datganoledig o dan adran 17(1), byddai hyn yn cynnwys ystyried y cyfyngiad ar wneud deddfwriaeth sy'n anghydnaws â chyfraith yr UE a geir yn adran 108(6)(c) o DLIC 2006. Fodd bynnag, ni fyddai'r cyfyngiad yn adran 108(6)(c) yn berthnasol i unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau sydd i gael effaith ar neu ar ôl y diwrnod ymadael gan y byddai'r Cytuniadau (fel y'u diffinnir yn adran 20(5)) wedi peidio â bod yn gymwys. Er enghraifft, ni all rheoliadau a wneir o dan adran 3 ddod i rym cyn y diwrnod ymadael ac felly ar adeg pan fo'r Cytuniadau yn gymwys i'r DU. Felly, ni allai'r cyfyngiad yn adran 108(6)(c) fod yn gymwys i'r rheoliadau. Mae'r sefyllfa yn wahanol i reoliadau o dan adrannau 9 a 10 gan y gall rheoliadau o'r fath ddod i rym cyn y diwrnod ymadael. Fodd bynnag, byddai unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau a wneir o dan adrannau 9 a 10 sydd i ddod i rym cyn y diwrnod ymadael yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad yn adran 108(6)(c)..
121. Mae is-adran (2) yn darparu diffiniad gwahanol o gymhwysedd datganoledig at ddiben adrannau 11, 14 a 15, y bwriedid iddo weithredu pe bai'r adran yn dod i rym cyn 1 Ebrill 2018. Mae'r diffiniad yn adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed i bwerau deddfwriaethol y Cynulliad gan Ddeddf Cymru 2017. Cyn 1 Ebrill 2018, mae'r setliad datganoli y darparwyd ar ei gyfer o dan adran 108 o DLIC 2006, ac Atodlen 7 iddi, i fod yn gymwys. Ar ac ar ôl 1 Ebrill 2018, mae darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig at ddiben adrannau 11, 14 a 15 os gellid cynnwys y ddarpariaeth mewn Deddf gan y Cynulliad o dan y setliad datganoli cyfredol a'r setliad datganoli newydd y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf Cymru 2017. Yr effaith y bwriedid i hyn ei chael oedd y byddai unrhyw ostyngiadau yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o ganlyniad i Ddeddf Cymru 2017 yn gymwys i adrannau 11, 14 a 15 ac na fyddai unrhyw gynnydd yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd Deddf Cymru 2017 yn gymwys.

117. The reporting mechanism does not require an individual report in relation to each individual consent. A report laid before the National Assembly for Wales could include details of more than one consent, provided that the report is laid within 60 days of the consent being given and the report includes the details required in section 16(2) in relation to each consent.
118. Section 16(3) ensures that any days where the National Assembly for Wales is dissolved or in recess for more than four days are discounted for the purposes of calculating the 60-day period within which a report must be laid following the giving of consent. This ensures that the 60-day period does not expire while the Assembly is not sitting for an extended period of time that would prevent the Welsh Ministers from laying a report.

Section 17 – Meaning of devolved competence

119. Section 17 defines devolved competence by reference to provision that would be within the legislative competence of the Assembly if it were contained in an Act of the Assembly enacted on the day this section comes into force. This confirms the limits in terms of legislative competence, but also means that regulations under the specified sections can also make provision that an Act of the Assembly could make, including modifying primary legislation and delegation of the power to make regulations. The fact that the powers can be used to modify primary legislation is confirmed in the relevant sections.
120. In assessing devolved competence under section 17(1), this would include consideration of the restriction on legislating incompatibly with EU law contained in section 108(6)(c) of the GoWA 2006. However, the restriction in section 108(6)(c) would not be relevant to any provision in regulations that are to have effect on or after exit day as the Treaties (as defined in section 20(5)) would have ceased to apply. For example, regulations made under section 3 cannot come into force before exit day and therefore at a point where the Treaties apply to the UK. The regulations could not therefore engage the restriction in section 108(6)(c). The situation is different for regulations under sections 9 and 10 as such regulations can come into force before exit day. However, any provision in regulations made under sections 9 and 10 to come into force before exit day would be subject to the restriction in section 108(6)(c).
121. Subsection (2) provides a different definition of devolved competence for the purpose of sections 11, 14 and 15, which was intended to operate in the event that the section came into force before 1 April 2018. The definition reflects the amendments made to the legislative powers of the Assembly by the Wales Act 2017 (“WA 2017”). Prior to 1 April 2018 the devolution settlement provided for under section 108 of, and Schedule 7 to, the GoWA 2006 is to apply. On and after 1 April 2018, a provision is within devolved competence for the purpose of sections 11, 14 and 15 if the provision could be included in an Act of the Assembly under both the current devolution settlement and the new devolution settlement provided for under the WA 2017. The intended effect of this was that any reductions in the legislative competence of the Assembly as a result of the WA 2017 would apply to sections 11, 14 and 15 and any increases in the legislative competence of the Assembly by virtue of WA 2017 would not apply.

Adran 18 – Rheoliadau i barhau i gael effaith

122. Mae'r pwerau i wneud rheoliadau o dan adrannau 3, 4, 5, 9, 10 ac 11 i gyd wedi eu cyfyngu o ran amser. Fodd bynnag, mae adran 16 yn egluro, er bod y pwerau yn y Ddeddf yn dod i ben, nad yw unrhyw reoliadau a wneir odanynt yn dod i ben.

Adran 19 ac Atodlen 2 – Rheoliadau

123. Mae adran 19(2) yn darparu y caiff y pwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol neu ardaloedd gwahanol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, bennu diwrnod ymadael gwahanol at ddibenion gwahanol, ped ystyrid bod hynny'n briodol.
124. Mae'r holl reoliadau a wneir o dan y Ddeddf yn ddarostyngedig i'r un fframwaith craffu a nodir o dan Atodlen 2. Mae Atodlen 2 yn darparu ar gyfer tair gweithdrefn wahanol ar gyfer craffu ar reoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Y weithdrefn gadarnhaol, fel y'i nodir ym mharagraff 3, yw'r weithdrefn safonol. Mae'r weithdrefn hon yn gymwys i'r holl reoliadau a wneir o dan y Ddeddf, ac eithrio'r rheini sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn frys neu'r weithdrefn uwch.
125. Mae'r weithdrefn uwch wedi ei nodi ym mharagraff 4 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gael eu gwneud ac wedyn eu gosod gerbron y Cynulliad. Bydd y rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ôl cyfnod o 30 o ddiwrnodau ar ôl cael eu gwneud oni bai bod y rheoliadau wedi eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad yn ystod y cyfnod o 30 o ddiwrnodau. Wrth osod yr offeryn (ar ôl ei wneud) rhaid i Weinidogion Cymru hefyd osod datganiad gan egluro amgylchiadau'r brys a pham y mae'n angenrheidiol i'r rheoliadau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn frys.
126. Mae'r weithdrefn frys yn gymwys i reoliadau sy'n cynnwys datganiad bod Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, fod angen gwneud y rheoliadau heb osod na chymeradwyo drafft. Ni all rheoliadau a wneir o dan adrannau 11, 12 a 22 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn frys a rhaid craffu arnynt ym mhob achos yn unol â'r weithdrefn uwch a nodir ym mharagraff 1.
127. Y weithdrefn sydd â'r potensial ar gyfer y craffu mwyaf yw'r weithdrefn uwch fel y'i nodir ym mharagraff 1. Ar wahân i reoliadau a wneir o dan adran 11, 12 neu 22, mae'r weithdrefn graffu i'w chymhwyso yn seiliedig ar gynnwys y rheoliadau yn hytrach na'r pŵer y gwneir y rheoliadau odano. Mae'r holl reoliadau a wneir o dan adran 11, 12 neu 22 o'r Ddeddf yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwch a nodir ym mharagraff 1. Mae paragraff 1(1) yn rhestru'r rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn uwch.
128. O dan y weithdrefn uwch, caiff y Cynulliad gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol safonol i unrhyw reoliadau sy'n dod o fewn paragraff 1(1) ac eithrio'r rheini a wneir o dan adrannau 12 neu 22. Caiff y Cynulliad ddewis y weithdrefn hon drwy gymeradwyo drafft o'r rheoliadau drwy benderfyniad ar ôl i 40 o ddiwrnodau ddod i ben ers i'r rheoliadau drafft gael eu gosod gan Weinidogion Cymru. Mae'r weithdrefn uwch lawn fel y'i nodir ym mharagraff 1(6) i (14) yn gymwys i unrhyw reoliadau a wneir o dan adrannau 12 neu 22.

Section 18 – Continuing effect of regulations

122. The powers to make regulations under sections 3, 4, 5, 9, 10 and 11 are all time limited. However, section 16 clarifies that although the powers in the Act expire, any regulations made under them do not expire.

Section 19 and Schedule 2 - Regulations

123. Section 19(2) provides that the powers to make regulations under the Act may make different provision for different purposes, different cases or different areas. This could include for example specifying a different exit day for different purposes, if that was considered appropriate.
124. All regulations made under the Act are subject to the same scrutiny framework set out under Schedule 2. Schedule 2 provides for three different procedures for scrutiny of regulations made under the Act. The standard procedure is the affirmative procedure, as laid out in paragraph 3. This applies to all regulations made under the Act, other than those which are subject to the urgent procedure or the enhanced procedure.
125. The urgent procedure is laid out in paragraph 4 and requires regulations subject to the procedure to be made and then laid before the Assembly. The regulations will cease to have effect after a period of 30 days after being made unless the regulations are approved by a resolution of the Assembly during the 30-day period. On laying the instrument (following its making) the Welsh Ministers must also lay a statement explaining the circumstances of the urgency and why it is necessary for the regulations to be subject to the urgent procedure.
126. The urgent procedure applies to regulations which contain a declaration that the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make the regulations without a draft being laid and approved. Regulations made under sections 11, 12 and 22 cannot be subject to the urgent procedure and must in all cases fall to be scrutinised in accordance with the enhanced procedure set out in paragraph 1.
127. The procedure with the potential for the greatest level of scrutiny is the enhanced procedure as laid out in paragraph 1. Apart from regulations made under sections 11, 12 or 22, the scrutiny procedure to be applied is informed by the contents of the regulations rather than the power under which the regulations are made. All regulations made under sections 11, 12 or 22 of the Act are subject to the enhanced procedure set out in paragraph 1. Paragraph 1(1) lists the regulations that are subject to the enhanced procedure.
128. Under the enhanced procedure the Assembly may apply the standard affirmative procedure to any regulations that fall within paragraph 1(1) apart from those made under sections 12 or 22. The Assembly may choose this procedure by approving a draft of the regulations by resolution after 40 days have expired since the draft regulations were laid by the Welsh Ministers. The full enhanced procedure as set out in paragraph 1(6) to (14) applies to any regulations made under sections 12 or 22.

129. Caiff y Cynulliad benderfynu cymhwyso'r weithdrefn uwch at reoliadau drafft sy'n dod o fewn paragraff 1(1) drwy benderfynu o fewn y cyfnod o 30 o ddiwrnodau ar ôl eu gosod y dylai'r weithdrefn fod yn gymwys. Caiff pwyllgor yn y Cynulliad a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft argymell o fewn yr un cyfnod o 30 o ddiwrnodau y dylai'r weithdrefn uwch fod yn gymwys. Os ceir argymhelliad o'r fath, mae'r weithdrefn uwch i fod yn gymwys oni bai bod y Cynulliad yn gwrthod yr argymhelliad drwy benderfyniad o fewn yr un cyfnod o 30 o ddiwrnodau.
130. Pan fo'r weithdrefn uwch yn gymwys, mae paragraff 1(6) i (14) yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn. Gweithdrefn dau gam yw hon pan gaiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r rheoliadau drafft. Y cam cychwynol yw cyfnod o 60 o ddiwrnodau ar ôl gosod y rheoliadau drafft pan ganiateir i sylwadau gael eu cyflwyno, caiff y Cynulliad basio penderfyniadau a chaiff pwyllgor yn y Cynulliad a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft wneud argymhellion. Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried pob sylw, penderfyniad ac argymhelliad o'r fath. Ar ôl gosod datganiad o dan baragraff 1(7), caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ar ffurf y rheoliadau drafft os y'u cymeradwyir drwy benderfyniad gan y Cynulliad. Pan fo Gweinidogion Cymru yn dymuno gwneud newidiadau sylweddol i'r rheoliadau drafft, rhaid iddynt osod gerbron y Cynulliad y rheoliadau drafft diwygiedig a datganiad yn unol â pharagraff 1(11)(b). Gall Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau drafft diwygiedig os y'u cymeradwyir drwy benderfyniad gan y Cynulliad.
131. Mae paragraff 1(9) a (13) yn galluogi pwyllgor yn y Cynulliad i argymell nad oes unrhyw drafodion pellach mewn cysylltiad â'r rheoliadau drafft neu'r rheoliadau drafft diwygiedig. Pan fo argymhelliad o'r fath wedi ei wneud, ni chaniateir unrhyw drafodion pellach mewn cysylltiad â'r rheoliadau drafft neu'r rheoliadau drafft diwygiedig oni bai bod yr argymhelliad wedi ei wrthod drwy benderfyniad gan y Cynulliad. Mae hyn yn golygu, heb i'r Cynulliad wrthod yr argymhelliad, na all Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau drafft neu'r rheoliadau drafft diwygiedig.
132. Mae paragraff 2(1) a (2) yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr achosion pan na chaiff Gweinidogion Cymru ddatgelu sylwadau, a phan nad oes angen iddynt ddatgelu sylwadau, a gyflwynir am reoliadau drafft neu reoliadau drafft diwygiedig o dan baragraff 1. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ym mharagraff 2(1) a (2) yn gweithredu i atal Gweinidogion Cymru rhag datgelu i bwyllgor yn y Cynulliad a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft neu'r rheoliadau drafft diwygiedig.
133. Mae adran 14 o DD 1978 yn darparu, pan fo Deddf yn rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, ei bod yn ymhlygu, onid ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb, fod pŵer, sy'n arferadwy yn yr un modd ac sy'n ddarostyngedig i'r un amodau neu gyfyngiadau, i ddirymu, diwygio neu ailddeddfu unrhyw offeryn a wneir o dan y pŵer. Mae hyn yn darparu bod unrhyw offeryn dirymu, diwygio neu ailddeddfu yn ddarostyngedig i'r un gofynion craffu sy'n gymwys i'r offeryn gwreiddiol. Mae paragraff 5 yn darparu bwriad i'r gwrthwyneb at ddibenion adran 14 o DD 1978. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai cynnwys y rheoliadau (ac eithrio rheoliadau a wneir o dan adran 11) sy'n llywodraethu'r trefniadau craffu sy'n gymwys o dan Atodlen 2. Felly, efallai y bydd yn ofynnol diwygio offeryn gwreiddiol, a wneir o dan y weithdrefn safonol, o dan y weithdrefn frys yn ddiweddarach. Mae paragraff 5 yn galluogi i hyn ddigwydd.

129. The Assembly may decide to apply the enhanced procedure to draft regulations falling within paragraph 1(1) by resolving within the 30-day period following laying that the procedure should apply. A committee of the Assembly charged with reporting on the draft regulations may recommend within the same 30-day period that the enhanced procedure should apply. In the event of such a recommendation, the enhanced procedure is to apply unless the Assembly rejects the recommendation by resolution within the same 30-day period.
130. Where the enhanced procedure applies, paragraph 1(6) to (14) sets out the applicable procedure. This is a two-stage procedure during which the Welsh Ministers may revise the draft regulations. The initial stage is a 60-day period after laying of the draft regulations where representations may be made, the Assembly may pass resolutions and a committee of the Assembly charged with reporting on the draft regulations may make recommendations. All such representations, resolutions and recommendations must be taken into account by the Welsh Ministers. Having laid a statement under paragraph 1(7), the Welsh Ministers may make regulations in the terms of the draft regulations if they are approved by a resolution of the Assembly. Where the Welsh Ministers wish to make material changes to the draft regulations, they must lay before the Assembly the revised draft regulations and a statement in accordance with paragraph 1(11)(b). The Welsh Ministers can make the revised draft regulations if they are approved by a resolution of the Assembly.
131. Paragraph 1(9) and (13) enables a committee of the Assembly to recommend that no further proceedings are taken in respect of the draft regulations or revised draft regulations. Where such a recommendation is made, no further proceedings can take place in respect of the draft regulations or revised draft regulations unless the recommendation is rejected by resolution of the Assembly. This means that without the Assembly rejecting the recommendation, the draft regulations or revised draft regulations cannot be made by the Welsh Ministers.
132. Paragraph 2(1) and (2) makes provision for when the Welsh Ministers must not and need not disclose representations made about draft regulations or revised draft regulations under paragraph 1. However, the provision in paragraph 2(1) and (2) does not operate to prevent the Welsh Ministers from disclosing to a committee of the Assembly charged with reporting on the draft regulations or revised draft regulations.
133. Section 14 of the IA 1978 provides that where an Act confers power to make subordinate legislation it implies, unless the contrary intention appears, a power, exercisable in the same manner and subject to the same conditions or limitations, to revoke, amend or re-enact any instrument made under the power. This provides that any revoking, amending or re-enacting instrument is subject to the same scrutiny requirements applicable to the original instrument. Paragraph 5 provides a contrary intention for the purposes of section 14 of the IA 1978. This reflects the fact that the scrutiny arrangements applicable under Schedule 2 are governed by the contents of the regulations (other than regulations made under section 11). Therefore an original instrument made under the standard procedure may later require to be amended under the urgent procedure. Paragraph 5 enables this to take place.

134. Mae paragraff 6 yn adlewyrchu'r posibilrwydd y caiff offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hefyd gynnwys rheoliadau a wneir o dan bŵer gwahanol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae paragraff 6 yn darparu mai'r trefniadau craffu a nodir yn y Ddeddf sy'n gymwys o dan amgylchiadau o'r fath.

Adran 20 – Dehongli cyffredinol

135. Mae'r nodiadau esboniadol eisoes wedi amlygu nifer o'r termau a ddiffinnir yn adran 20 drwy gyfeirio at y darpariaethau y maent yn berthnasol iddynt.
136. Mae 'diwrnod ymadael' yn derm allweddol yn y Ddeddf ac fe'i diffinnir yn adran 20(1). Mae i'w benodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae Erthygl 50(3) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd yn darparu y bydd y Cytuniadau yn peidio â bod yn gymwys i'r DU o'r dyddiad y daw'r cytundeb ymadael i rym neu, os na ddigwydd hynny, ddwy flynedd ar ôl yr hysbysiad o dan Erthygl 50(2). Mae Erthygl 50(3) yn mynd yn ei blaen i ddarparu y caiff y Cyngor Ewropeaidd, drwy gytuno â'r DU, benderfynu'n unfrydol i estyn y cyfnod hwn.
137. Ar 29 Mawrth 2017, hysbysodd y DU y Cyngor Ewropeaidd am ei bwriad i ymadael â'r UE. Os na chytunir ar gytundeb ymadael yn gyntaf neu os na chytunir ar estyniad rhwng y DU a'r Cyngor Ewropeaidd, bydd y Cytuniadau yn peidio â bod yn gymwys am 11:00pm ar 29 Mawrth 2019. Diffinnir 'Treaties' yn Erthygl 1 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd fel y Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.
138. Mae gadael penodi'r diwrnod ymadael i reoliadau yn adlewyrchu'r posibiladau y darparwyd ar eu cyfer o dan Erthygl 50(2) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd. Wrth wneud rheoliadau sy'n pennu'r diwrnod ymadael, rhaid i Weinidogion Cymru gadw at y gofynion a nodir yn adran 20(4).
139. Yn gyntaf, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r diwrnod a benodir at yr un dibenion neu at ddibenion tebyg mewn neu o dan Ddeddf gan Senedd y DU i roi effaith i ymadawiad y DU â'r UE. Os caiff ei basio, bydd y diwrnod ymadael a bennir yn y Bil i Ymadael â'r UE sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd yn dod yn berthnasol i arfer pŵer Gweinidogion Cymru i benodi diwrnod ymadael at ddibenion y Ddeddf. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu'r un diwrnod ymadael.

134. Paragraph 6 reflects the possibility that a statutory instrument containing regulations made under the Act may also contain regulations made under a different power which is subject to the negative resolution procedure. Paragraph 6 provides that in such circumstances the applicable scrutiny arrangements are those set out under the Act.

Section 20 – General interpretation

135. The explanatory notes have already highlighted a number of the terms defined in section 20 by reference to the provisions to which they are relevant.
136. ‘Exit day’ is a key term in the Act and is defined in section 20(1). It is to be appointed in regulations made by the Welsh Ministers. Article 50(3) of the TEU provides that the Treaties will cease to apply to the UK from the date of entry into force of the withdrawal agreement or, failing that, two years after the notification under Article 50(2). Article 50(3) goes on to provide that the European Council may, in agreement with the UK, unanimously decide to extend this period.
137. The UK notified the European Council of its intention to withdraw from the EU on 29 March 2017. In the absence of a withdrawal agreement being agreed first or an extension being agreed between the UK and the European Council, the Treaties will cease to apply at 11:00p.m. on 29 March 2019. ‘Treaties’ is defined in Article 1 of the TEU as the TEU and TFEU.
138. Leaving the appointing of exit day to regulations reflects the possibilities catered for under Article 50(2) of the TEU. In making regulations that specify exit day the Welsh Ministers must adhere to the requirements laid out in section 20(4).
139. First, the Welsh Ministers must have regard to the day appointed for the same or similar purposes in or under an Act of Parliament of the UK to give effect to the withdrawal of the UK from the EU. If passed, the exit day specified in the EU Withdrawal Bill currently before Parliament, will become relevant to the exercise of the power of the Welsh Ministers to appoint exit day for the purposes of the Act. However, this would not require the Welsh Ministers to adopt the same exit day.

140. Mae'r ail ofyniad yn adran 20(4) yn darparu na all Gweinidogion Cymru bennu'r diwrnod ymadael ar adeg pan fo'r Cytuniadau yn dal i fod yn gymwys i'r DU. Mae Erthygl 50 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd yn darparu ar gyfer ymadawiad Aelod-wladwriaethau â'r UE ac mae Erthygl 50(3) yn darparu ar gyfer yr adeg pan fo'r Cytuniadau i beidio â bod yn gymwys i Aelod-wladwriaeth. Felly, mae adran 20(4)(b) yn sicrhau na all y diwrnod ymadael ond bod yn adeg ar ôl i'r Cytuniadau beidio â bod yn gymwys i'r DU yn unol ag Erthygl 50(3). Ni allai Gweinidogion Cymru bennu dyddiad pan fo'r Cytuniadau yn dal i fod yn gymwys oherwydd y cyfyngiad ar wneud deddfwriaeth sy'n anghydnaws â chyfraith yr UE a geir yn adran 80(8) o DLIC 2006, ond mae adran 20(4)(b) yn cadarnhau'r sefyllfa hon. Y Cytuniadau at ddibenion adran 20(4)(b), sy'n gyson â'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd, yw'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, ond yn rhinwedd adran 20(7) mae hefyd yn dal Cytuniad Euratom.
141. Mae adran 20(2) yn cynnwys darpariaeth bellach sy'n berthnasol i'r diffiniad o'r diwrnod ymadael. Mae nifer o'r darpariaethau yn y Ddeddf yn gweithredu gan gyfeirio at cyn, ar ôl neu ar y diwrnod ymadael. Mae adran 20(2) yn egluro'r union adeg y mae cyfeiriadau o'r fath i'w darllen. Pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi amser yn ogystal â diwrnod fel y diwrnod ymadael, mae cyfeiriadau i'w darllen yn unol â'r amser a bennir. Er enghraifft, os yw Gweinidogion Cymru yn penodi 11:00pm ar 29 Mawrth 2019, mae cyfeiriad yn y Ddeddf at reoliadau yn dod i rym ar y diwrnod ymadael i'w ddarllen fel cyfeiriad at y rheoliadau hynny yn dod i rym am 11:00pm ar 29 Mawrth 2019. Pan na fo Gweinidogion Cymru yn penodi amser yn ogystal â diwrnod fel y diwrnod ymadael, mae unrhyw gyfeiriad at y diwrnod ymadael yn y Ddeddf i'w ddarllen fel cyfeiriad at ddechrau'r diwrnod hwnnw.

Adran 22 - Diddymu'r Ddeddf hon

142. Caniateir i'r pŵer yn adran 22 gael ei ddefnyddio i ddiddymu'r Ddeddf yn ei chyfanrwydd neu unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf. Mae rheoliadau a wneir o dan adran 22 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwch fel y'i nodir ym mharagraff 1(6) i (14).

Adran 23 - Enw byr

143. Enw byr y Ddeddf yw 'Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018'.

140. The second requirement in section 20(4) provides that the Welsh Ministers cannot specify exit day at a point in time where the Treaties still apply to the UK. Article 50 of the TEU provides for the withdrawal of Member States from the EU with Article 50(3) providing for the moment at which the Treaties are to cease to apply to a Member State. Section 20(4)(b) therefore ensures that exit day can only be a point in time after the Treaties have ceased to apply to the UK in accordance with Article 50(3). The Welsh Ministers would be unable to specify a date at which the Treaties still apply due to the restriction on legislating incompatibly with EU law contained in section 80(8) of the GoWA 2006, but section 20(4)(b) confirms this position. The Treaties for the purposes of section 20(4)(b), consistent with the TEU, are the TEU and the TFEU, but by virtue of section 20(7) it also captures the Euratom Treaty.
141. Section 20(2) contains further provision relevant to the definition of exit day. A number of the provisions in the Act operate by reference to before, after or on exit day. Section 20(2) clarifies the exact point in time to which such references are to be read. Where the Welsh Ministers appoint a time as well as day as exit day, references are to be read in accordance with the time specified. For example, if the Welsh Ministers appoint 11:00p.m. on 29 March 2019, a reference in the Act to regulations coming into force on exit day is to be read as a reference to those regulations coming into force at 11:00p.m. on 29 March 2019. Where the Welsh Ministers do not appoint a time as well as a day as exit day, any reference to exit day in the Act is to be read as a reference to the beginning of that day.

Section 22 – Repeal of this Act

142. The power in section 22 may be used to repeal the Act in its entirety or any provision contained in the Act. Regulations made under section 22 are subject to the enhanced procedure as set out in paragraph 1(6) to (14).

Section 23 – Short title

143. The short title of the Act is the ‘Law Derived from the European Union (Wales) Act 2018’.

COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

144. Mair tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar: <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=21280>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	7 Mawrth 2018
Cyfnod 1 - Dadl	13 Mawrth 2018
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	20 Mawrth 2018
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	21 Mawrth 2018
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad	21 Mawrth 2018
Y Cydsyniad Brenhinol	6 Mehefin 2018

©^h Hawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

RECORD OF PROCEEDINGS IN THE NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

144. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales' website at: <http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=21280>

Stage	Date
Introduced	7 March 2018
Stage 1 - Debate	13 March 2018
Stage 2 Scrutiny Committee - consideration of amendments	20 March 2018
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	21 March 2018
Stage 4 Approved by the Assembly	21 March 2018
Royal Assent	6 June 2018

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.



Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), part of Williams Lea Tag, ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
Archebion ffacs: 0333 202 5080
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea Tag, and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
Fax orders: 0333 202 5080
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-12000-4



9 780348 120004